

Lleihau gwrthdaro teuluol

Diwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Medi 2018



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Lleihau gwrthdaro teuluol

Diwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru

Medi 2018



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

OGL

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:

<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-the-legal-requirements-for-divorce>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

- I:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at Seneddwyr, y farnwriaeth teulu, ymarferwyr cyfraith teulu, academyddion, sefydliadau cymorth ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn gwrthdaro teuluol, llesiant plant neu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer diddymu priodasau a phartneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr.
- Hyd:** O 15 Medi tan 10 Rhagfyr 2018
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** Reducing Family Conflict, Zone 3.23
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk
- Sut mae ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 10 Rhagfyr 2018 at:
Reducing Family Conflict, Zone 3.23
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk
- Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno'ch safbwyntiau:** Bydd cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid yn cael eu cynllunio hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.
- Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn erbyn 8 Mawrth 2019 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	7
Y gyfraith bresennol	8
Sut mae'r gyfraith bresennol yn gwaethygu gwrthdaro teuluol defined.	Error! Bookmark not defined.
Y dull diwygio	24
Y cynigion	Error! Bookmark not defined.
Holiadur	37
Gwybodaeth amdanoch chi	38
Manylion cyswllt a sut mae ymateb	39
Asesiad o'r Effaith	Error! Bookmark not defined.
Egwyddorion yr ymgynghoriad	42

Rhagair



Ni fydd ysgariad byth yn newid rhwydd i deuluoedd. Fodd bynnag, mae'r achos diweddar Owens v Owens wedi codi cwestiynau ehangach am yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ofyn gan bobl pan fyddant yn ysgaru ac am yr hyn y mae hynny'n ei gyflawni yn ymarferol. Pan fydd priodas neu bartneriaeth sifil wedi chwalu'n anadferadwy, diben y gyfraith fydd delio â'r sefyllfa honno yn y ffordd fwyaf dyngarol ac effeithiol bosibl.

Wedi i mi ddod yn Ysgrifennydd dros Gyfiawnder eleni, roeddwn yn gallu edrych yn fanylach ar ysgaru ac, yn benodol, ar y broses gyfreithiol a all gymell un parti i wneud honiadau am ymddygiad y llall. Yr hyn sy'n amlwg yw nad yw'r gofyniad hwn yn gwasanaethu er lles y cyhoedd. Mae'n chwilio'r gorffennol yn ddiangen i gyfiawnhau dod â pherthynas i ben yn gyfreithiol, a honno'n berthynas nad yw'n llesol nac yn weithredol mwyach. Pan fo pethau ar eu gwaethaf, gall yr honiadau hyn roi un rhiant i gystadlu'n erbyn y llall. Rwy'n poeni'n arw y gall hyn fod yn hynod niweidiol i blant.

Mae hi'n briodol i'r broses gyfreithiol ar gyfer ysgaru roi cyfle pwysig i gyplau drafod goblygiadau ysgaru. Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar honiadau am ymddygiad, a ddefnyddir gan rai pobl i roi bai ar y parti arall, yn ychwanegu ansicrwydd a phoen yn y broses gyfreithiol a gall hynny gynyddu'r gwrthdaro teuluol parhaus.

Nid yn unig y mae'r gofyniad gwrthdrawol hwn yn mynd yn groes i'r graen mewn cyfraith teulu yn gyffredinol, mae hefyd yn tansilio'r dull adeiladol y mae ymarferwyr yn ei ddefnyddio bob dydd i helpu teuluoedd i ddatrys eu hanghyfodau. Pan fydd perthynas wedi chwalu'n llwyr, rhaid canolbwyntio ar y dyfodol.

Wrth gynnig proses urddasol o roi hysbysiad pan fydd priodas neu bartneriaeth sifil wedi chwalu'n anadferadwy yn lle'r gofyniad i ddangos tystiolaeth o ymddygiad neu wahaniad, mae'r Llywodraeth yn datblygu achos cryf a hirsefydlog ar gyfer diwygio. Aeth mwy nag ugain mlynedd heibio ers i'm rhagflaenydd enwog yn Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Mackay o Clashfern, arwain y ffordd i'r Senedd dderbyn yr egwyddor y dylai pobl allu ysgaru heb unrhyw ofyniad i gyfiawnhau'r penderfyniad, heblaw iddyn nhw eu hunain. Oherwydd yr holl ystyriaethau hyn, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol diwygio'r gyfraith i ddileu'r gofyniad hwn.

Pan fydd priodas wedi methu y tu hwnt i adfer, ni ddylai'r gyfraith fod yn rhwystr i sicrhau gwell canlyniadau, yn enwedig i blant. Dyna pam rydym yn ymgynghori ar fanylion ein cynnig diwygio. Gall proses gyfreithiol ddiwygiedig helpu pobl i ganfod gwell sefydlogrwydd i ystyried goblygiadau'r penderfyniad i ysgaru, yn ogystal â'u helpu nhw i gytuno ar drefniadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar ran fach o'r gyfraith sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau teuluoedd. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd bron 110,000 o gyplau wedi ysgaru, pob un ohonynt o dan ofyniad sydd wedi'i orfodi ers bron hanner canrif. Ni fydd effeithiau niweidiol y gofyniad hwn yn amlwg bob amser i'r rheini sydd heb brofi effaith ysgariad eu

hunain. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i gryfhau'r cymorth i blant a theuluoedd yn ystod cyfnod anodd.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'David Gauke', written in a cursive style.

Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

Mae methiant priodas yn amser anodd i deuluoedd. Mae'r penderfyniad i ysgaru yn un poenus iawn yn aml. Pan fydd plant yn gysylltiedig, gall yr effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, yn enwedig os oes gwrthdaro parhaus.

Yr achos dros ddiwygio

Mae'r gyfraith bresennol yng Nghymru a Lloegr – sydd wedi aros yr un fath ers hanner can mlynedd – yn pennu gofynion sydd ohonyn nhw eu hunain yn gallu creu neu ddwysáu gwrthdaro, ac sy'n cymhell pobl i ganolbwyntio ar y gorffennol, yn hytrach nag ar wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn credu bod consensws eang bellach ynghylch y ffaith nad yw'r broses ysgaru bresennol yn diwallu anghenion cymdeithas fodern. Mae'r anawsterau â'r gyfraith bresennol hefyd wedi cael eu hamlygu'n ddiweddar gerbron y Goruchaf Lys. Yn benodol, mae'r broses ysgaru bresennol yn golygu bod plant yn agored i effaith niweidiol gwrthdaro parhaus rhwng oedolion yn ystod y broses ac, yn aml, ar ôl i'r broses ddod i ben. Er bod y system cyfiawnder teuluol yn canolbwyntio ar helpu pobl i ddatrys materion teuluol mewn ffordd sy'n osgoi gwrthdaro, gall y broses ysgaru gyfreithiol wneud hyn yn anos oherwydd y ffordd mae'n cymhell y priodoledd yr ystyrir fel bai. Efallai y bydd rhieni yn benodol, sydd angen parhau i gydweithio er budd gorau eu plant, yn ei chael hi'n anodd osgoi teimladau gelyniaethus a chwerw sydd wedi'u hachosi drwy ddefnyddio "bai" i fodloni proses gyfreithiol.

O dan y gofynion presennol, mae'n rhaid i gyplau fyw ar wahân am gyfnod sylweddol cyn gallu cael ysgariad, neu mae'n rhaid i un priod wneud honiadau am ymddygiad y priod arall. Weithiau bydd hyn yn cael ei ystyried fel dangos bod y priod arall "ar fai". Mae tri o bob pum person sy'n ceisio ysgariad yn gwneud honiadau am ymddygiad y priod arall. Mae'r ddwy ffordd o weithredu'n gallu achosi straen a gofid ychwanegol i'r cwpl sy'n ysgaru, gan arwain at ganlyniadau gwaeth iddyn nhw ac unrhyw blant. Cafwyd galwadau lawer am ddiwygio'r gyfraith i ddelio â'r pryderon hyn, yn aml ar ffurf cynigion i ddileu'r cysyniad o "fai".

Mae priodas yn ymrwymiad dwys, ac mae'n bwysig bod y broses ysgaru yn adlewyrchu natur ddifrifol y penderfyniad i ddod â phriodas i ben. Mae'r Llywodraeth yn credu na ddylai'r gyfraith ddwysáu gwrthdaro a straen ar adeg sydd eisoes yn anodd. Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr egwyddor nad yw er budd i blant, teuluoedd na chymdeithas fod pobl yn gorfod cyfiawnhau eu penderfyniad i ysgaru i'r llys.

Y cynigion

Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig diwygio gofynion cyfreithiol y broses ysgaru er mwyn cysoni'r broses â'r dull gweithredu a ddefnyddir mewn rhannau eraill o gyfraith teulu, ac i roi'r ffocws ar helpu oedolion i ganolbwyntio ar wneud trefniadau ar gyfer eu dyfodol eu hunain a dyfodol eu plant, yn hytrach na chanolbwyntio ar roi bai ac edliw. Bydd dau amcan i'r gyfraith ddiwygiedig: sicrhau bod y penderfyniad i ysgaru yn parhau i gael ei wneud yn ystyriol, a bod y rhai priod yn cael cyfle i newid cwrs; a sicrhau nad yw cyplau sy'n ysgaru'n wynebu gofynion cyfreithiol sydd heb fudd iddyn nhw na'r gymdeithas ac sy'n gallu arwain at wrthdaro a chanlyniadau gwael i blant yn sgil hynny.

I ddarparu'r ddau amcan hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig addasu'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith er mwyn dod â phriodas sydd wedi chwalu yn anadferadwy i ben yn gyfreithiol. Mae'r addasiad yn cynnwys dileu'r gallu i honni bod "bai". Rydym yn cynnig troi oddi wrth ddull sy'n gofyn am gyfiawnhau i'r llys y rheswm bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer a sefydlu proses sy'n gofyn am roi hysbysiad i'r llys pan fydd priodas sydd wedi methu y tu hwnt i adfer. Rydym hefyd yn cynnig dileu gallu priod, fel rheol gyffredinol, i herio'r ysgariad (a elwir yn ffurfiol yn *amddiffyn* yn y broses gyfreithiol ond, er eglurder, byddwn yn cyfeirio at hynny fel *herio* yn y papur ymgynghori hwn). Mae'r Llywodraeth yn egluro, os yw un priod wedi dweud bod y briodas wedi dod i ben, yna dylai'r broses gyfreithiol barchu'r penderfyniad ac ni ddylai geisio rhwystro'r priod sydd am ddod â'r briodas i ben yn gyfreithiol. Yn bwysig, byddai'r newid hwn hefyd yn atal y broses gyfreithiol rhag cael ei defnyddio gan un priod i ormesu'r priod arall a all fod yn dioddef cam-drin domestig.

Gan ddechrau gyda'r egwyddorion allweddol hyn, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch y ffordd orau o newid y gyfraith er mwyn helpu i leihau gwrthdaro teuluol a chryfhau cyfrifoldeb teuluol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ynghylch hyd y broses ysgaru a hyd y cyfnod y dylai cyplau fyfyrion ar y penderfyniad i ysgaru a gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol pan fydd ysgaru'n anochel. Hefyd, rydym yn gofyn am farn ynghylch darpariaeth ar gyfer cyplau sydd am ddeisebu am ysgariad ar y cyd, gan adlewyrchu bod llawer o gyplau, mewn gwirionedd, wedi ystyried y penderfyniad hwn ar y cyd.

Mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi y bydd llawer o bobl am ofyn cwestiynau personol ynghylch terfynu eu priodas. Efallai y byddant am fyfyrion ar yr hyn aeth o'i le ac ystyried ble mae'r cyfrifoldeb am hynny. Nid yw cynigion y Llywodraeth yn cael gwared â'r agwedd honno ond yn hytrach yn dileu gofyniad cyfreithiol. Nid ydym yn credu bod gwneud synnwyr o fethiant priodas yn gwestiwn cyfreithiol ar gyfer y llys ond yn fater personol y dylai'r bobl sy'n ymwneud â'r briodas yn unig fyfyrion arno.

Nid sefydlu proses ysgaru haws na chyflymach yw ein bwriad, ond gwneud y broses gyfreithiol o ddod i benderfyniad ystyriol i ysgaru yn llai llafurus, gan sicrhau bod y broses ysgaru yn cyd-fynd yn well â dulliau gweithredu ehangach cyfraith teulu ac â'r realiti yng nghyswllt methiant priodas.

Diwygio ehangach

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod diddordeb mewn agweddau eraill ar y gyfraith sy'n ymwneud ag ysgaru, fel sut gall y llys wneud gorchmynion ariannol. Rydym yn parhau i edrych ar yr agweddau eraill hyn ac yn credu ei bod yn bwysig y bydd unrhyw newid yn y dyfodol wedi'i seilio ar broses gyfreithiol ddiwygiedig lle mae llai o bosibilrwydd o wrthdaro.

Mae'r gofyniad i roi tystiolaeth o ymddygiad neu wahanu (neu'r ddau) yn gymwys hefyd i wahaniad barnwrol yn ystod priodas ac i brosesau cyfatebol y gorchmynion diddymu a gwahanu ar gyfer partneriaethau sifil. Er hwylustod, bydd cyfeiriadau at ysgaru a phriodas yn y papur ymgynghori hwn yn cynnwys cyfeiriadau at ddiddymu a phartneriaethau sifil fel y bo'n briodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y gofynion cyfreithiol ar gyfer dod â phriodas neu bartneriaeth sifil i ben. Nid yw'n ymdrin ag agweddau eraill ar gyfraith priodas fel darpariaethau ariannol neu ddirymedd (sy'n ymwneud â dilysrwydd cyfreithiol priodas neu bartneriaeth sifil).

Cyflwyniad

Mae'r papur ymgynghori hwn yn egluro cynigion y Llywodraeth ar gyfer lleihau gwrthdaro teuluol drwy gyflwyno proses sy'n gofyn am hysbysiad bod y briodas wedi chwalu y tu hwnt i adfer yn lle'r gofyniad presennol i ddangos tystiolaeth o ymddygiad priod neu o wahaniad y cwpl. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i ddeisebau am ysgariad a gwahaniad barnwrol (yn ystod priodas) ac i geisiadau am orchmynion diddymu a gwahanu (yn ystod partneriaeth sifil). Yng nghyswllt achosion o wahaniad (barnwrol), bydd hyn yn golygu rhoi hysbysiad o'ch dymuniad i gael gwahaniad cyfreithiol gan barhau i fod yn briod, yn hytrach na rhoi hysbysiad bod y briodas wedi chwalu y tu hwnt i adfer.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at Seneddwyr, y farnwriaeth teulu, ymarferwyr cyfraith teulu, academyddion, sefydliadau cymorth ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymddiddori mewn gwrthdaro teuluol, llesiant plant neu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer diddymu priodasau a phartneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr.

Bydd papur ymgynghori Cymraeg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-the-legal-requirements-for-divorce> maes o law. Defnyddiwch y cyfeiriad ymholiadau i gael rhagor o fanylion.

Mae Asesiad o'r Effaith wedi dangos bod hyn yn debygol o effeithio'n benodol ar gyplau sy'n ysgaru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol. Nid yw'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol nac arbedion i fusnesau, elusennau neu'r sector gwirfoddol. Caiff Asesiad o'r Effaith ei gyhoeddi ynghyd â'r papur ymgynghori hwn yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-the-legal-requirements-for-divorce>.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y canlynol:

Llywydd y Goruchaf Lys	Cymdeithas Clercod yr Ynadon
Yr Arglwydd Brif Ustus	Cymdeithas y Gyfraith
Llywydd yr Adran Deulu	Marriage Foundation
	Nuffield Foundation
Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth	Refuge
Cafcass	Relate
Cafcass Cymru	Resolution
Coalition for Marriage	Stonewall
Families Need Fathers	Llywodraeth Cymru
Cymdeithas y Bar ar Gyfraith Teulu	Cymorth i Ferched Cymru
Cyngor Cyfryngu Teuluoedd	Women's Aid

Nid yw'r rhestr hon yn gyfyngol nac yn hollgynhwysol. Byddwn yn falch o gael ymateb gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc sydd dan sylw yn y papur hwn neu sydd ag unrhyw sylwadau amdano.

Y gyfraith bresennol

Mae ysgariad yn newid mawr ym mywydau unigolion a theuluoedd a fydd yn dod â chanlyniadau emosiynol ac ymarferol pellgyrhaeddol ar gyfer cyfer nhw ac ar gyfer plant yn benodol. Mae hefyd yn newid sylfaenol mewn statws cyfreithiol a fydd yn newid hawliau a chyfrifoldebau pobl. Mae'r gyfraith yn cydnabod natur ddifrifol y newidiadau hyn drwy roi amddiffyniad statudol sy'n caniatáu ysgaru dim ond lle mae priodas wedi methu ac na ellir ei hadfer.

Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig cadw'r amddiffyniad hwn. Yr elfen hanfodol yn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn cynnig ei ddiwygio yw'r gofyniad presennol bod pobl sy'n ceisio ysgariad yn rhoi tystiolaeth o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei alw'n "ffaith". Nid ydym yn credu bod budd yn y gofyniad hwn. Yn ogystal, gall arwain at effeithiau niweidiol drwy ysgogi neu waethygu gwrthdaro teuluol, a all fod yn hynod niweidiol i blant. Gall yr effaith hon gael ei theimlo gan aelodau o'r teulu nid yn unig yn ystod y broses ysgaru ond hefyd ar ôl dod â'r briodas i ben yn gyfreithiol.

Er bod y gyfraith bresennol yn ei lle ers bron hanner canrif, yn aml ni fydd pobl yn sylweddoli beth yn union yw'r gofynion hyn nes gorfod eu cyflawni ar adeg pan fyddant yn aml yn profi'r straen mwyaf yn eu bywyd. Felly mae'r bennod hon yn ymdrin â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru, gan roi sylw'n bennaf i'r gofynion y mae'r Llywodraeth yn cynnig eu newid.¹ Mae'r bennod sy'n dilyn yn ystyried effeithiau'r gofynion hyn ar fywyd teuluol.

Amlinelliad o'r gofynion cyfreithiol sylfaenol yn y gyfraith bresennol

Mae'r gyfraith sy'n rheoli sut mae pobl yn gallu ysgaru yng Nghymru a Lloegr wedi'i phennu yn Rhan 1 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973.² "Achosion priodasol" yw'r term arferol am wahanol faterion sy'n ymwneud fel arfer â therfynu priodas neu gwestiynau am ei statws cyfreithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith statudau ar ysgariad wedi dwyn yr enw hwn ers i Ddeddf Achosion Priodasol 1857 beri bod ysgaru ar gael yn y llys. (Cyn y Ddeddf honno, roedd y rhain yn faterion i'r llysoedd eglwysig neu i'r Senedd fel arfer.)

Cafwyd newidiadau i'r broses gyfreithiol ar gyfer ysgaru ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd y diweddaraf yn dilyn pasio Deddf Diwygio Ysgariad 1969. Daeth ei darpariaethau i rym ym 1971 a chawsant eu haildeddfu yn Neddf Achosion Priodasol 1973. Mae'r gofynion cyfreithiol sylfaenol a gyflwynwyd drwy'r diwygiad hwn yn parhau hyd heddiw, yn cynnwys y gofynion bod pobl sy'n ceisio ysgariad yn rhoi tystiolaeth o un neu ragor o bum ffaith. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r pum ffaith hyn, sy'n cael eu galw yma yn odineb, ymddygiad, gadael, gwahaniad o ddwy flynedd (os yw'r ddau briod yn cytuno ar yr ysgariad) a gwahaniad o bum mlynedd (fel arall). Rhaid argyhoeddi'r llys o ffaith y mae rhywun yn dibynnu arni wrth geisio ysgariad cyn i'r llys allu rhoi dyfarniad ysgaru.

¹ Nid oes bwriad i gynnig trosolwg cynhwysfawr ar gyfraith ysgariad yn y papur ymgynghori hwn. Er mwyn cael dadansoddiad awdurdodol o'r gyfraith a'i datblygiad dros hanes ei deddfu, rydym yn awgrymu *Cretney and Probert's Family Law*, goln. Rebecca Probert a Maebh Harding (London: Sweet & Maxwell, 2018).

² Cyhoeddwyd yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1973/18/part/1>.

Ni all y llys roi dyfarniad oni bai fod y briodas wedi methu ac na ellir ei hadfer, sef yr hyn y mae'r gyfraith yn ei alw'n sail o fod wedi methu y tu hwnt i adfer.³ Yng nghyswllt ysgaru, mae rhoi dyfarniad ysgaru yn broses ddau gam. Mae'r dyfarniad cyntaf, y dyfarniad nisi, yn ddyfarniad amodol. Ni ddaw'r briodas i ben yn gyfreithiol nes bydd y llys yn rhoi'r ail ddyfarniad, sef y dyfarniad absoliwt. Gall y llys wneud y dyfarniad absoliwt chwe wythnos a diwrnod ar ôl rhoi'r dyfarniad nisi. Rhoddir manylion y broses hon yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Gwahaniad barnwrol

Mae Deddf Achosion Priodasol 1973 hefyd yn pennu'r gofynion ar gyfer ceisio gwahaniad barnwrol. Mae gwahaniad barnwrol yn wahanol i ysgariad. Mae'n fath o wahanu sydd, er enghraifft, yn rhoi'r gallu i wneud gorchmynion ariannol heb ddod â'r briodas i ben. Mae'r achosion hyn yn brin: Rhoddwyd 152 o ddyfarniadau y flwyddyn ddiwethaf.⁴ Bydd gwahaniad barnwrol weithiau'n cael ei weld yn well ffordd i ddelio â chwalfa deuluol ar gyfer pobl sy'n herio ysgariad ar sail grefyddol.

Yn yr un modd ag ysgaru, rhaid i bobl sy'n ceisio gwahaniad barnwrol roi tystiolaeth o un neu ragor o'r pum ffaith. Bydd dileu'r gofyniad hwn mewn cyfraith ysgariad hefyd yn dileu'r gofyniad hwn mewn cyfraith gwahaniad barnwrol. Gan nad yw gwahaniad barnwrol yn dod â'r briodas i ben, mae rhai gwahaniaethau rhyngddo ac ysgariad. Mewn achosion gwahaniad barnwrol, nid oes rhaid i'r llys ystyried a yw'r briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Mae dyfarniad gwahaniad barnwrol yn ddyfarniad sengl, heb gamau nisi ac absoliwt. Mae'n gydnabyddiaeth gyfreithiol bod y briodas yn parhau ond bod y partiön wedi'u rhyddhau oddi wrth rwymedigaethau penodol. Gall partiön i wahanid barnwrol wneud cais am y rhan fwyaf o'r mathau o orchmynion am ddarpariaeth ariannol yn yr un ffordd â chyplau sy'n ysgaru. Os bydd pobl sydd wedi cael gwahaniad barnwrol yn dymuno dod â'r briodas i ben, rhaid iddynt wneud cais am ysgariad.

Partneriaethau sifil

Pan gyflwynwyd partneriaethau sifil drwy Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, roedd y gyfraith yn seiliedig ar y gofynion ar gyfer ysgariad a gwahaniad barnwrol.⁵ Er hynny, mae rhai gwahaniaethau o ran terminoleg. I bartneriaid sifil, yr enw ar yr hyn sy'n cyfateb i ysgariad yw *diddymiad* ac mae'r hyn sy'n cyfateb i wahanid barnwrol yn cael ei alw'n *wahaniad*, er bod barnwr yn ymwneud ag ef yn yr un ffordd ac mewn cyfraith ysgariad. Mae'r hyn sy'n cyfateb i ddyfarniad yn cael ei alw'n *orchymyn*.

Felly yr hyn sy'n cyfateb i ddyfarniad ysgaru yw gorchymyn diddymu, a'r hyn sy'n cyfateb i ddyfarniad gwahaniad barnwrol yw gorchymyn gwahanu. Ar gyfer diddymu partneriaeth sifil, mae gorchymyn diddymu yn cael ei alw'n orchymyn *amodol* ar y cam cyntaf (yn lle dyfarniad nisi) ac yn orchymyn *terfynol* ar yr ail gam olaf (yn lle dyfarniad absoliwt). Gwahaniaeth pellach yng nghyswllt diddymu yw bod pedair ffaith, yn hytrach na phump, y gall y ceisydd ddibynnu arnynt i sefydlu bod y bartneriaeth sifil wedi methu y tu hwnt i adfer.

³ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(1).

⁴ Family Court Statistics Quarterly (Ionawr–Mawrth 2018), tabl 12. Cyhoeddwyd yn <https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-january-to-march-2018>.

⁵ Mae'r ddarpariaeth ddrych hon wedi'i nodi ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Mae ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/33/part/2/chapter/2>.

Er bod y priod arall yn cael ei alw'n *atebydd* ar gyfer ysgaru a diddymu (ac yn y prosesau cysylltiedig ar gyfer gwahaniad barnwrol a gwahaniad), mae'r person sy'n ceisio dyfarniad neu orchymyn yn cael ei alw'n *ddeisebydd* mewn perthynas â phriodas ac yn *geisydd* mewn perthynas â phartneriaeth sifil. Nid yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu i gwbl ddeisebu neu geisio ar y cyd.

Er mwyn hwylustod, bydd cyfeiriadau sy'n ymwneud ag ysgariad a phriodas yn y papur ymgynghori hwn yn cynnwys cyfeiriadau sy'n ymwneud â diddymu a phartneriaethau sifil fel y bo'n briodol. (Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod cyfeiriad at briod yn deisebu am ddyfarniad ysgaru yn cynnwys partner sifil yn gwneud cais am orchymyn diddymu.)

Manylion y gofynion cyfreithiol presennol

Yr unig sail dros ysgaru

Nid oes ond un sail dros ysgaru, sydd wedi'i diffinio mewn statud fel a ganlyn: "bod y briodas wedi chwalu ac nid oes modd ei hadfer".⁶ Dyma fu'r gyfraith ers pasio Deddf Diwygio Ysgariad 1969. (Mae'r ymadrodd "sail dros ysgaru" yn deillio o'r cyfnod cyn y diwygiad hwn pan oedd pedair sail ar gael. Byddai ysgariad yn cael ei ganiatáu ar ôl profi un o'r seiliau, dan amodau penodol).

Cyflwynwyd yr unig sail o fethu y tu hwnt i adfer ar ôl ymgynghori arni a'i hystyried yn fanwl gan Gomisiwn y Gyfraith.⁷ Mae nifer o awdurdodaethau eraill hefyd yn defnyddio un sail dros ysgaru.

Dan y gyfraith bresennol yng Nghymru a Lloegr, ni all y llys roi dyfarniad ysgaru oni bai fod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Ni all y llys ddal bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer oni bai fod y deisebydd yn ei argyhoeddi o un neu ragor o'r pum ffaith sydd ar gael. Nid yw'r ffeithiau hyn yn ddigon ohonyn nhw eu hunain i ddod â'r briodas i ben yn gyfreithiol ond rhaid eu profi. Mae'r gyfraith yn gwahardd rhoi dyfarniad ysgaru os nad yw'r llys wedi'i argyhoeddi gan yr holl dystiolaeth bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer.⁸

Y pum ffaith

Mae pum ffaith ar gael i ddeisebwyr. Rhaid iddynt ddewis o leiaf un ffaith a rhoi tystiolaeth ohoni yn eu deiseb i'r llys. Am fod y ffeithiau'n cael eu talfyrru yn aml wrth eu defnyddio bob dydd, gan arwain weithiau at eu camddeall, bydd o gymorth dangos sut maent wedi'u diffinio yn y statud. Ni all y llys ddal bod sail methu y tu hwnt i adfer wedi'i dangos oni bai fod y deisebydd yn argyhoeddi'r llys o un neu ragor o'r ffeithiau canlynol:

- (a) bod yr *atebydd* wedi godinebu a bod y deisebydd yn cael nad yw'n gallu dioddef byw gyda'r *atebydd*;
- (b) bod yr *atebydd* wedi ymddwyn yn y fath fodd fel na ellir disgwyl yn rhesymol i'r deisebydd fyw gyda'r *atebydd*;

⁶ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(1).

⁷ Comisiwn y Gyfraith, *The Field of Choice*, Command Paper Cmnd. 123 (London: HMSO, 1966). Roedd Comisiwn y Gyfraith wedi llunio'r adroddiad o ganlyniad i atgyfeiriad iddo gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Gardiner, mewn ymateb i adroddiad gan grŵp Archesgob Caergaint ar ysgariad. Yr adroddiad hwn oedd *Putting Asunder: A Divorce Law for Contemporary Society* (London: SPCK, 1966).

⁸ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(4).

- (c) bod yr atebydd wedi gadael y deisebydd am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno;
- (d) bod y partïon i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "two years' separation") a bod yr atebydd yn cydsynio i ddyfarniad gael ei roi;
- (e) bod y partïon i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o bum mlynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "five years' separation").⁹

Mae'r ddwy ffaith gyntaf ac, ym marn rhai, y drydedd ffaith wedi'u seilio ar ymddygiad yr atebydd, sy'n cael ei alw'n aml yn "fai". Nid yw'r bedwaredd a'r bumed ffaith, sy'n seiliedig ar wahanu, yn galw am wneud honiadau am ymddygiad yr atebydd. Wrth gwrs, gellir cyfuno ffaith am wahanu â ffaith am ymddygiad.

Mae'r gyfraith hefyd yn gwneud darpariaethau atodol am y ffeithiau.¹⁰ Mae'r darpariaethau atodol hyn yn effeithio ar y gallu i dderbyn tystiolaeth o'r ffeithiau mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, ni all deisebwyr ddibynnu ar ffaith godinebu os oeddent wedi byw gyda'r atebydd am fwy na chwe mis ar ôl iddynt wybod am y godineb. Mae'r amodau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y ffeithiau gan y darpariaethau atodol yn gallu golygu bod y llwybr drwy'r gyfraith a deall beth mae'n ofynnol ei brofi i gael ysgariad yn gymhleth i rai pobl.

Mae'r tabl isod yn dangos y ffeithiau sydd wedi'u profi mewn ysgariadau sydd wedi'u rhoi i un parti:¹¹ O bob pum deiseb, mae tua thair yn dibynnu ar y ffeithiau ymddygiad a dwy ar y ffeithiau gwahanu. Yn 2016, y ffaith ymddygiad - sydd wedi'i diffinio uchod ym mharagraff (b) - oedd y ffaith y dibynnwyd arni ym mron hanner yr holl ddeisebau (45.3%, neu 45.9% o'i chyfuno â'r ffaith godinebu).

	2012	2013	2014	2015	2016
Godineb	15,995	15,170	14,050	12,148	11,973
Ymddygiad	56,458	55,211	52,538	46,832	48,315
Ymddygiad ynghyd â godineb	282	66	549	569	624
Gadael	719	762	794	717	637
Gwahaniad o ddwy flynedd	30,210	29,054	28,711	26,197	29,135
Gwahaniad o bum mlynedd	14,278	14,251	14,307	14,244	16,029

⁹ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(2).

¹⁰ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 2.

¹¹ Addaswyd o dabl 5 cronfa ddata 2016 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/divorce/datasets/divorcesinenglandandwales>. Mae'r data ar gyfer 2015 a 2018 yn cynnwys priodasau cyplau o'r un rhyw.

Cyfanswm

117,942 114,514 110,949 100,707 106,713

Godineb

Nid yw'r rhestr yn y statud o'r pum ffaith sydd ar gael yn hierarchaidd, felly nid yw prawf o un ffaith yn bwysicach na phrawf o un arall. Er hynny, mae'n digwydd bod y ffaith gyntaf yn y rhestr yn ymwneud â mater sydd â hanes hir iddo mewn cyfraith ysgariad:

(a) bod yr atebydd wedi godinebu a bod y deisebydd yn cael nad yw'n gallu dioddef byw gyda'r atebydd;

Mae godineb ac ysgariad yn rhannu hanes sy'n dechrau cyn bod ysgariad sifil ar gael yng Nghymru a Lloegr. Nes pasio Deddf Achosion Priodasol 1937, godineb oedd yr unig sail a oedd ar gael. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad rhwng godineb ac ysgariad yn ein cyfraith wedi'i newid yn sylweddol dros y blynyddoedd. Rhwng Deddfau Achosion Priodasol 1857 a 1923, gallai gŵr ddeisebu am ysgariad ar sail godineb, ond roedd gwraig yn gorfod profi nid yn unig fod ei gŵr wedi godinebu ond hefyd ei fod wedi cyflawni trosedd gwaethybol. Roedd Deddf Achosion Priodasol 1923 wedi dileu'r anghydraddoldeb hwnnw rhwng y rhywiau ac wedi caniatáu i ddynion a menywod gael ysgariad ar sail godineb yn unig.

Mae godineb yn parhau'n rhan o'r gyfraith bresennol, nid fel sail ond fel ffaith. Mae'r ffaith hon wedi'i hamodi: nid yw godinebu'n ddigon, a rhaid i'r deisebydd gael hefyd nad yw'n gallu dioddef byw gyda'r atebydd. Nid yw'n ofynnol bellach i'r deisebydd enwi'r cyd-atebydd (y person yr honnir bod yr atebydd wedi godinebu ag ef). Mae enwi cydatebyddion yn cael ei anghymell, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig, gan gyfarwyddyd ymarfer y Llys Teulu ar y weithdrefn ar gyfer ceisiadau mewn achosion priodasol a phartneriaeth sifil.¹²

Ni all godineb ddigwydd ond rhwng dyn a menyw.¹³ Mae diffiniad cyfyng a hirsefydlog o union natur godineb mewn cyfraith achosion. Nid yw gweithredoedd rhywiol rhwng dynion a menywod sydd heb fodloni'r diffiniad hwn yn dderbyniol o dan y ffaith godinebu. Credir weithiau fod hyn yn anfantais i ddeisebwyr y mae eu priod wedi bod yn anffyddlon gyda rhywun o'r un rhyw. Yr hyn fydd yn digwydd yw bod unrhyw weithred rywiol nad yw'n dod o dan y diffiniad cyfreithiol - beth bynnag yw rhyw'r ddau barti - yn cael ei rhestru o dan y ffaith ymddygiad.

Oherwydd y diffiniad hirsefydlog mewn cyfraith achosion, nid yw'r ffaith godinebu ar gael i bobl sy'n ceisio diddymu partneriaeth sifil. Cafwyd dadl ar y mater hwn yn y Senedd yn fwyaf diweddar yn ystod taith Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

Ymddygiad

Mae'r ffaith ymddygiad yn cael ei thalfyrru'n aml yn "ymddygiad afresymol". Mae hyn yn ddealladwy, o ystyried geiriad cyfansawdd y diffiniad cyfreithiol, ond mae'n gamarweiniol.

¹² Cyfarwyddyd Ymarfer 7A, paragraff 2.1. Cyhoeddwyd yn http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_07a.

¹³ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(6).

Felly rydym yn galw'r ffaith hon yn ffaith "ymddygiad" ym mhob rhan o'r papur ymgynghori hwn. Nid oes rhaid i'r ymddygiad fod yn afresymol ar ei ben ei hun, ond rhaid i'r ymddygiad beri ei bod yn afresymol disgwyl i'r deisebydd fyw gyda'r atebydd:

- (b) bod yr atebydd wedi ymddwyn yn y fath fodd fel na ellir disgwyl yn rhesymol i'r deisebydd fyw gyda'r atebydd;

Yn yr un modd â godineb, nid yw ymddygiad yn ddigon ar ei ben ei hun: rhaid bod effaith ar y deisebydd. Mae'r gofynion yn wahanol, a rhaid i'r llys gymhwyso prawf gwahanol yn unol â hynny. Mae'r llys wedi dal ers amser hir mai safonau a gwerthoedd y dydd sy'n pennu beth sy'n "afresymol" yn y ffaith ymddygiad (yn hytrach na barn y deisebydd ei hun). Er hynny, fe fydd y llys yn dal sylw ar y briodas benodol ac ar y deisebydd ac atebydd penodol - nid cysyniad haniaethol o beth yw priod - gan ystyried holl amgylchiadau'r briodas ac edrych ar yr effaith gronol o ymddygiad yr atebydd yn gyffredinol.

Mae hanes hir o gyfraith achosion ar gael i ddehongli'r ffaith ymddygiad a beth yw ymddygiad. Caiff hyn ei drin yn nyfarniadau'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys yn achos Owens v Owens.¹⁴

Gadael

Mae'r defnydd o'r ffaith gadael wedi lleihau dros gyfnod hir ac yn 2016 roedd wedi'i defnyddio mewn 0.6% o'r deisebau ysgaru.¹⁵ Mae gadael yn wahanol i wahanu o ran bod yr atebydd wedi gadael yn fwriadol heb gydsyniad y deisebydd:

- (c) bod yr atebydd wedi gadael y deisebydd am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno;

Gwahanu

Mae'r bedwaredd a'r bumed ffaith ill dwy wedi'u seilio ar gyfnod di-dor o wahanu:

- (d) bod y partïon i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "two years' separation") a bod yr atebydd yn cydsynio i ddyfarniad gael ei roi;
- (e) bod y partïon i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o bum mlynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "five years' separation")

Mae'r ddwy ffaith gwahanu hyn yn gymharol syml. Os nad yw'r atebydd yn cytuno ar yr ysgariad, rhaid cael gwahaniad o bum mlynedd. Os bydd yr atebydd yn cytuno i'r ysgariad, bydd gwahaniad o ddwy flynedd yn ddigon.

¹⁴ Mae dyfarniad y Goruchaf Lys ([2018] UKSC 41) a chrynodeb buddiol ar gael yn <https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2017-0077.html>. Mae dyfarniad y Llys Apêl ([2017] EWCA Civ 182) ar gael yn <https://www.judiciary.uk/judgments/tini-owens-v-hugh-john-owens/>.

¹⁵ Gweler tabl 5 cronfa ddata 2016 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/divorce/datasets/divorcesinenglandandwales>.

Nid yw'r ffeithiau gwahanu yn ymwneud â honiadau am ymddygiad. Mewn gwirionedd, maent yn agor llwybr i gael yr hyn sy'n cael ei alw weithiau'n "ysgariad heb fai". Ond maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i gyplau fyw ar wahân am gyfnodau hir cyn gallu cyflwyno deiseb. Mae hyn yn fwy anodd os nad yw cyplau'n gallu fforddio byw ar wahân neu os ydynt yn amharod i wneud hynny. Mae'n bosibl i ddeisebwyr ddibynnu ar y ffeithiau gwahanu os ydynt wedi byw bywydau ar wahân o dan yr un to â'r atebydd, ond mae'r amodau'n fater cyfraith achosion a rhaid iddynt gael eu profi yn ddigonol i'r llys.

Pryd y gellir gwneud deisebau

Nid yw bob amser yn bosibl gwneud deiseb ysgaru yn syth wedi i'r briodas fethu. Mae hyn yn fwyaf amlwg lle mae deisebau'n dibynnu ar un o'r ffeithiau gwahanu. Fel y nodwyd uchod, mae'r darpariaethau atodol yn gosod amodau ychwanegol ar y gallu i dderbyn pob un o'r ffeithiau.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd defnyddio'r ffeithiau godineb neu ymddygiad, os gellir gwneud hynny, bron bob amser yn agor y llwybr i gael ysgariad yn gynharach, gan osgoi'r angen i aros am ddwy flynedd cyn cyflwyno deiseb os bydd y priod arall yn cydsynio i'r ysgariad neu bum mlynedd os na fydd.

Pa ffaith bynnag a ddefnyddir, mae gwaharddiad ar gyflwyno pob deiseb ysgaru ym mlwyddyn gyntaf y briodas.¹⁶ Nid oedd gwaharddiad o'r fath yn bod o gwbl nes i Ddeddf Achosion Priodasol 1937 ymestyn y seiliau dros ysgaru ymhellach na godinebu a chyflwyno gwaharddiad tair blynedd. Mewn nifer o awdurdodaethau lle mae cyfreithiau tebyg ar gael ysgariad, yn cynnwys yr Alban, ni fu erioed waharddiad o'r fath.

Roedd Deddf Achosion Priodasol a Theuluol 1984 wedi byrhau'r gwaharddiad hwn i un flwyddyn, yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith.¹⁷ Nid yw'r gwaharddiad yn atal deisebydd rhag dibynnu ar dystiolaeth o ymddygiad neu wahaniad a ddigwyddodd ym mlwyddyn gyntaf y briodas.¹⁸

Wedi i'r cwpl fod yn briod am o leiaf blwyddyn, gellir gwneud deiseb wedi'i seilio ar odineb neu ymddygiad heb fod angen dangos cyfnod o wahanu cyn hynny. Os dibynnir ar y ffeithiau gwahanu, rhaid i'r cyfnod gofynnol fynd heibio cyn gwneud y ddeiseb.

Nid oes gwaharddiad cyfatebol ar ddeisebau am wahaniad barnwrol, a gellir cyflwyno'r rhain ar unrhyw adeg yn ystod y briodas. Ni fyddai deiseb a oedd yn dibynnu ar un o'r ffeithiau gwahanu yn dderbyniol os oedd wedi'i chyflwyno cyn i'r cyfnod gofynnol ddod i ben.

Mae deisebwyr ac ymgeiswyr (yn achos partneriaid sifil) yn defnyddio'r un Ffurflen llys, pa un ai a ydynt yn deisebu am ysgariad neu wahaniad barnwrol neu'n gwneud cais am

¹⁶ Mae'n waharddiad am flwyddyn a diwrnod mewn gwirionedd. Geiriad adran (3)(1) o Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yw "No petition for divorce shall be presented to the court before the expiration of the period of one year from the date of the marriage." Mae hyn yn golygu mai'r cynharaf y gellir cyflwyno deiseb yw'r diwrnod ar ôl pen blwydd cyntaf y briodas.

¹⁷ Comisiwn y Gyfraith, *Time Restrictions on Presentation of Divorce and Nullity Petitions*, Law Com. No.116, Command Paper 513 (London: HMSO, 1982), t.12.

¹⁸ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 3(2).

ddiddymiad neu orchymyn gwahanu.¹⁹ Lansiodd y Llywodraeth wasanaeth ymgeisio am ysgariad ar-lein newydd ym mis Mai eleni.²⁰

Gall y priod arall – yr ymatebydd – ddewis ateb y cais i ddangos ei fod yn dymuno herio'r cais. Yn ffurfiol, caiff hyn ei alw'n *amddiffyn* yn y broses gyfreithiol, ond mae'r papur ymgynghori hwn yn cyfeirio ato fel *herio*, er eglurder. Rhaid i ymatebwyr sydd am herio'r cais lenwi Ffurflen Llys i ateb y ddeiseb.²¹ Gallai hyn fod am nad ydynt yn cytuno bod y briodas neu bartneriaeth sifil wedi chwalu y tu hwnt i adfer, neu oherwydd eu bod yn dymuno herio'r honiadau sydd wedi'u gwneud yn eu herbyn gan eu priod neu bartner sifil. Fel y nodir yn y bennod ganlynol, does dim llawer o ymatebwyr – dim ond tua 2% – yn dewis ateb y ddeiseb.

Sut mae'r llys yn penderfynu

Pan fydd y llys yn cael deiseb ysgaru, mae'n cynnal nifer o wiriadau gweinyddol, gan gynnwys sicrhau manylion y briodas yn ogystal â sicrhau bod gan y llys awdurdodaeth i ddiddymu'r briodas. Mae'r gyfraith statud hefyd yn gosod dyletswydd ar y llys i wneud y canlynol:

ymchwilio, hyd y gall wneud hynny'n rhesymol, i'r ffeithiau a honnwyd gan y deisebydd ac i unrhyw ffeithiau a honnwyd gan yr atebbydd.²²

Yn ymarferol, ni fydd y llys yn gallu ymchwilio'n helaeth y tu hwnt i ystyried a yw'r ddeiseb yn profi ffaith benodol i fodlonrwydd y llys, oni bai fod angen gwneud hynny. Ym 1973, cyflwynwyd yr hyn a elwir yn "weithdrefn arbennig" ar gyfer ysgariadau diwrthwynebiad wedi'u seilio ar ffaith gwahaniad o ddwy flynedd, os nad oedd plant gan y cwpl. Roedd hyn yn golygu nad oedd y deisebydd a'r atebbydd yn gorfod dod i wrandawriad llys os oedd y ddau ohonynt wedi cytuno ar yr ysgariad. Estynnwyd y weithdrefn arbennig i gynnwys yr holl ysgariadau diwrthwynebiad ym 1977. Cyn hynny roedd astudiaeth gyfreithiol-gymdeithasol wedi dangos nifer o ddiffygion a oedd wedi codi o'r weithdrefn wrthwynebol.²³ Yn y weithdrefn arbennig hon, os bydd y llys wedi'i argyhoeddi y dylid rhoi dyfarniad nisi, bydd barnwr yn rhoi'r dyfarniad. Yn ymarferol, caiff deisebau nawr eu trafod gan gynghorwyr cyfreithiol o dan oruchwyliaeth barnwr rhanbarth, a fydd yn rhoi'r dyfarniad. Gan fod cynifer o ysgariadau ac ychydig o atebbyddion yn eu herio, rhaid i'r llys ddyfarnu ym mron pob achos ar sail y ddeiseb fel y mae.

Os bydd yr ysgariad yn un o'r ychydig iawn sy'n cael eu herio, bydd yr atebbydd yn ffeilio ateb i'r ddeiseb. Yn y pen draw gellid cael gwrandawriad sy'n cael ei herio lle bydd y llys yn gwrandao ar dystiolaeth gan y ddau barti. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o ysgariadau

¹⁹ Caiff y ddeiseb ei gwneud ar Ffurflen D8, sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/form-d8-application-for-a-divorce-dissolution-or-to-apply-for-a-judicial-separation-order>.

²⁰ Mae'r gwasanaeth ar-lein yn <https://www.gov.uk/apply-for-divorce>.

²¹ Caiff yr ateb ei wneud ar Ffurflen D8B, sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/form-d8b-answer-to-a-divorcedissolutionjudicial-separation-or-nullity-petitionapplication>.

²² Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(3).

²³ Er enghraifft, nid oedd y gwrandawriadau'n para ond ychydig o funudau, ond roedd y llys yn aml yn codi ofn ar y partiön ac roeddent yn teimlo bod yr holi'n fusneslyd. Gweler Elizabeth Elston, Jane Fuller a Mervyn Murch, 'Judicial Hearings of undefended Divorce Petitions', *Modern Law Review* vol.38 no.6 (Tachwedd 1975): 609-40.

sy'n cael eu herio eu setlo cyn gwrandawriad terfynol ac mae gwrandawiadau sy'n cael eu herio, fel y nodwn yn y bennod nesaf, yn brin iawn.

Mae pŵer gan y llys i gyfeirio materion at Broctor y Goron (mewn ffaith, i swyddfa Cyfreithiwr y Trysorlys, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth) os oes amheuaeth bod deiseb yn dwyllodrus, er enghraifft.²⁴

Pryd y gellir gwneud dyfarniad terfynol

Er bod Deddf Achosion Priodasol 1973, a oedd yn cynnwys statud gynharach, wedi parhau i ddatgan bod rhaid i chwe mis fynd heibio rhwng rhoi dyfarniad nisi a rhoi dyfarniad absoliwt²⁵, roedd hefyd yn dal i ddarparu pŵer i fyrhau'r cyfnod hwn. Cafodd y pŵer hwn ei ddefnyddio yn 1972 i bennu cyfnod gofynnol o chwe wythnos a diwrnod. Dyma'r cyfnod sy'n gymwys yn awr.²⁶ Fodd bynnag, yn ymarferol mae'r datblygiad rhwng y dyfarniadau yn cymryd cyfnod hirach am nifer o resymau, gan gynnwys delio â'r parti arall ac â chynrychiolwyr cyfreithiol yn ogystal â buddioldeb cytuno ar y trefniadau ariannol cyn yr ysgariad terfynol.

Mae darpariaeth hefyd i'r llys bennu cyfnod byrrach mewn achos penodol. Defnyddir y pŵer hwn yn gymharol anaml ond fe'i defnyddir fel arfer mewn achosion lle mae rhywun yn dymuno cwblhau dyfarniad absoliwt cyn ei farw, neu lle mae rhywun yn disgwyl rhoi genedigaeth, er enghraifft, ac yn dymuno ailbriodi cyn i'r plentyn gael ei eni.

Gall deisebydd wneud cais, wedi i'r cyfnod gofynnol ddod i ben, am droi'r dyfarniad nisi yn ddyfarniad absoliwt. Gwneir y cais drwy roi hysbysiad i'r llys ei fod ef neu hi yn dymuno i'r dyfarniad nisi gael ei wneud yn absoliwt. Os na fydd y deisebydd yn gwneud y cais, rhaid i'r atebydd aros am dri mis pellach cyn cael caniatâd i wneud hynny.²⁷

Pan fydd y llys yn cael cais am ddyfarniad absoliwt, bydd y llys yn gwneud y dyfarniad nisi yn absoliwt os bydd wedi'i fodloni ar nifer o faterion, er enghraifft, nad oes apêl yn yr arfaeth yn erbyn gwneud y dyfarniad nisi.

²⁴ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 8.

²⁵ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(5).

²⁶ Ar gyfer diddymu partneriaeth sifil, mae adran 38 Deddf Partneriaeth Sifil 2004 y datgan na fydd gorchymyn diddymu amodol yn cael ei wneud yn derfynol am chwe wythnos. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth i ddiwygio'r cyfnod hwn, ond nid y tu hwnt i chwe mis.

²⁷ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 9(2).

Sut mae'r gyfraith bresennol yn gwaethygu gwrthdaro teuluol

Cafwyd beirniadaeth gref ar y gyfraith bresennol dros y degawdau. Caiff y sylfaen dystiolaeth fwyaf diweddar o effeithiau'r gofynion cyfreithiol presennol eu cyflwyno yn *Finding Fault?*, yr adroddiad a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiwethaf gan Sefydliad Nuffield ar ymchwil dan arweiniad Liz Trinder, Athro Astudiaethau Cyfreithiol-gymdeithasol yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerwysg. Dyma gasgliad yr adroddiad:

The study shows that we already have something tantamount to immediate unilateral divorce 'on demand', but masked by an often painful, and sometimes destructive, legal ritual with no obvious benefits for the parties or the state.²⁸

Pan oedd yr Arglwydd Mackay o Clashfern yn Arglwydd Ganghellor, ymgynghorodd y Llywodraeth ar gynigion i ddiwygio cyfraith ysgariad a ddaeth yn rhan o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996. Yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd wedyn, *Looking to the Future*, nodwyd pryderon y Llywodraeth ar y pryd a bod cefnogaeth eang i ddiwygio:

It was clear from the responses to the consultation that there is considerable discontent with the current system. Many consultees considered that the divorce law encourages hostility and bitterness by creating an incentive for petitioners to make allegations of fault, regardless of whether these are relevant to the reasons for the breakdown of the marriage.²⁹

Roedd yr Arglwydd Mackay yn Arglwydd Ganghellor hefyd yn ystod taith seneddol Deddf Plant 1989, y statud arloesol a roddodd les plant yn ganolog i benderfyniadau gan y llys. Nid oedd y darpariaethau yn Neddf Cyfraith Teulu 1996 i ddileu'r gallu i wneud honiadau am ymddygiad neu gyfeirio at wahanu erioed wedi cael eu cychwyn a chawsant eu diddymu'n ddiweddarach.³⁰ Un o'r darpariaethau oedd gofyniad i gyplau ddod i gyfarfod gwybodaeth fel y cam cyntaf allweddol cyn cychwyn y broses ysgaru. Treialwyd y cyfarfodydd gwybodaeth hyn wedi i'r Ddeddf gael ei phasio. Cyhoeddodd y Llywodraeth yn 2001 y bwriad i ddiddymu'r darpariaethau yn dilyn casgliad gwerthusiad academiaidd ar y pryd:

The research has concluded that none of the six models of information meeting tested over a two-year period is good enough for the implementation of Part II on a nationwide basis. It has shown that, for most people, the meetings came too late to save marriages and tended to incline those who were uncertain about their marriages towards divorce. Whilst people valued the provision of information, the meetings were too inflexible, providing general information about both marriage saving and the divorce process.³¹

²⁸ Liz Trinder, Debbie Braybrook, Caroline Bryson, Lester Coleman, Catherine Houlston a Mark Sefton, *Finding Fault?: Divorce Law and Practice in England and Wales* (London: Nuffield Foundation, 2017), t.10. Mae'r adroddiad, ynghyd â chrynodeb, ar gael yn <http://findingfault.org.uk/research-findings-final-report/>.

²⁹ Adran yr Arglwydd Ganghellor, *Looking to the Future: Mediation and the Ground for Divorce*, Command Paper Cm 2799 (London: HMSO, 1995), t.6.

³⁰ Diddymwyd y darpariaethau gan adran 18 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

³¹ HL Deb 16 January 2001 vol 620 c126WA.

Nodwyd hefyd yng nghyhoeddiad y Llywodraeth mai un o nodau Deddf Cyfraith Teulu 1996 oedd “reducing distress and conflict”. Fodd bynnag, roedd y cyfarfod gwybodaeth yn rhan hanfodol o'r darpariaethau a doedd dim modd ei ddatgysylltu oddi wrthynt. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r materion sydd felly'n parhau i alw am sylw yn y gyfraith bresennol a'u heffaith bosibl ar blant a pherthnasoedd teuluol. Byddai gennym ddi-ddordeb mewn tynnu rhagor o dystiolaeth o'r ymgynghoriad.

Y gyfraith a'r cwestiwn am “fai”

Dan y gyfraith bresennol, y cwestiwn i'r llys bob amser yw a yw'r briodas, ar sail y dystiolaeth, wedi methu y tu hwnt i adfer. Nid yw'r cwestiwn am bwy, os rhywun, sydd “ar fai” am fethiant y briodas yn berthnasol i'r mater sydd i'w benderfynu gan y llys, sef a fydd yn rhoi dyfarniad ysgaru. Nid yw'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng partïon “euog” a “dieuog” i'r briodas. Ni all gefnogi'r naill barti na'r llall. Yn ymarferol, gall priodas fethu am nifer o resymau. Er bod y gyfraith ei hun yn niwtral, mae gofynion cyfreithiol y broses ysgaru yn gallu arwain yn aml at sefyllfa wrthwynebol, pa un a yw'r priod arall yn cytuno ar y penderfyniad i ysgaru neu beidio.

Rydym yn ymwybodol bod rhai cyfreithwyr teulu wedi gwneud sylwadau yn y wasg ac arlein gan ddweud, am bobl sy'n eu holi am ysgaru heb orfod byw ar wahân yn gyntaf, fod y sgwrs gyntaf â'r cleient bob amser yn ymwneud ag ymddygiad a “bai”. Adlewyrchir y profiad hwn yn *Finding Fault?*, a oedd yn arolygu ymarferwyr cyfraith teulu fel rhan o raglen ymchwil academiaidd.³² Gall yr angen i wneud honiadau arwain at wrthdaro â'r priod arall o ddechrau'r achos. Mae'n dod yn elfen gynhenid wrth i'r angen godi i brofi manylion am ymddygiad y priod arall. Ym 1995, roedd y Llywodraeth wedi cydnabod y mater hwn yn *Looking to the Future*, ei Phapur Gwyn a oedd yn ymateb i ymgynghori ar ddiwygio cyfraith ysgariad:

The need to cite evidence in support of an alleged fact has the effect of forcing couples to take up hostile positions from the very beginning, which may quickly become entrenched. Allegations alienate and humiliate the respondent to such an extent that the marriage is seemingly irretrievable. While children are inevitably affected when their parents separate, research shows that it is conflict between the parents which has been linked to greater social and behavioural problems among children rather than the separation and divorce itself.³³

Anaml y bydd ymddygiad y rhai priod yn cael effaith sylweddol ar achosion eraill i roi trefn ar faterion ariannol, ond nid oes llawer o bobl yn deall hyn yn ôl pob golwg.³⁴ Mae'r penderfyniad ynghylch priodas yn chwalu'n anadferadwy a'r penderfyniad ynghylch rhannu asedau cwpl yn ddau gwestiwn cwbl ar wahân ar gyfer y llys. Yng nghyswllt achosion ariannol, ni fydd y llys yn ystyried ymddygiad oni bai mai annheg fyddai ei ddiystyru.³⁵ (Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, lle mae un parti wedi gwastraffu neu guddio asedau.)

³² *Finding Fault?*, t.106.

³³ *Looking to the Future*, t.8.

³⁴ Gweler, er enghraifft, *Finding Fault?*, tt.110 a 145.

³⁵ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 25(2)(g).

Wrth gynnig y diwygiadau sydd yn y gyfraith bresennol, roedd Comisiwn y Gyfraith wedi dod i'r casgliad ym 1966 mai un o'r amcanion mewn cyfraith ysgariad dda yw:

When, regrettably, a marriage has irretrievably broken down, to enable the empty legal shell to be destroyed with the maximum fairness, and the minimum bitterness, distress and humiliation.³⁶

Roedd Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion yn *The Field of Choice* a gafodd eu mabwysiadu yn Neddf Diwygio Ysgariad 1969, sydd yn sail i'r gyfraith bresennol o hyd. Wrth ailedrych ar y gyfraith bresennol ym 1988 yn ei bapur trafod *Facing the Future*, daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod y defnydd helaeth parhaus o ffeithiau ymddygiad yn golygu "the high hopes of the Commission have not been realised" a "the present law falls well short of the objectives it set out to fulfil".³⁷ Daeth i'r casgliad bod y ffeithiau ymddygiad yn amharu ar yr amcan mewn cyfraith ysgariad yr oedd wedi'i nodi'n gynharach:

Attaining the aims of maximum fairness and minimum bitterness has been rendered impossible by the retention of the fault element. The necessity of making allegations in the petition "draws the battle-lines" at the outset. The ensuing hostility makes the divorce more painful, not only for the parties but also for the children, and destroys any chance of reconciliation and may be detrimental to post-divorce relationships. Underlying all these defects is the fact that whether or not the marriage can be dissolved depends principally upon what the parties have done in the past. In petitions relying on fault-based facts, the petitioner is encouraged to "dwell on the past" and to recriminate.³⁸

Mae'r cysyniad o "fai" yn un o olion y cysyniad o "trosedd priodasol" a oedd yn bodoli yn y gyfraith cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghyd-destun y cysyniad hwn, a oedd yn dal mai godineb oedd yr unig drosedd a oedd yn cyfiawnhau dod â phriodas i ben, roedd ysgariad yn rhwymedi cyfreithiol am gam a oedd wedi'i wneud. Nid yw'r ddealltwriaeth fodern o ysgariad yn cyd-fynd â hynny.

Nid yw'r gyfraith bresennol yn pennu pam roedd y briodas wedi methu

Mae'r ffaith a ddewisir ar gyfer deiseb ysgaru yn dystiolaeth i ategu'r datganiad *bod* y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer, ac nid *pam* mae wedi methu. Mae'r ymchwil yn *Finding Fault?* wedi dangos:

Only 29% of respondents to a fault-based divorce reported that the Fact had very closely matched the reason and 29% said that it did not match the reason closely at all. Even amongst petitioners, only 65% claimed that the (fault) Fact chosen very closely matched the reason for the relationship breakdown.³⁹

³⁶ *The Field of Choice*, t.10.

³⁷ Comisiwn y Gyfraith, *Facing the Future: A Discussion Paper on the Ground for Divorce*, Law Com. No.170, Command Paper HC 479 (London: HMSO, 1988), tt.20, 28.

³⁸ *Facing the Future*, t.28.

³⁹ *Finding Fault?*, t.39.

Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â'r canfyddiad mewn arolwg ar gyfer ymchwil a gynhaliwyd gan YouGov yn 2015 ar ran Resolution. Ei ganfyddiad oedd "27% of divorcing couples who asserted blame in their divorce petition admitted the allegation of fault wasn't true, but was the easiest option".⁴⁰

Roedd Comisiwn y Gyfraith wedi nodi wrth gynnig methiant y tu hwnt i adfer yn unig sail dros ysgaru ym 1966, cyn cyflwyno'r gyfraith bresennol:

Breakdown of a marriage usually precedes the matrimonial offence on which the divorce petition is based. Thus, an isolated act of adultery or isolated acts with different partners may be the grounds for divorce, but are likely to be the result of the breakdown of the marriage rather than its cause.⁴¹

Mae hefyd yn debygol, os yw cwpl wedi bod yn byw ar wahân i'w gilydd am gryn amser (a'u bod yn dibynnu ar un o'r ffeithiau gwahanu mewn deiseb ysgaru), y bydd hyn ym mron pob achos yn symptom o fethiant eu priodas ac nid yn achos iddo.

Mae'r gyfraith bresennol yn gweithio yn erbyn cytuno a chymodi

Mae gofyniad i ddangos tystiolaeth o ymddygiad a all arwain at fai yn gallu peri rhagor o wrthdaro. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymarferwyr cyfraith teulu yn teimlo bod anghydfodau teuluol yn cael eu setlo orau pan fydd pobl yn gallu datrys eu hanghytundebau'n uniongyrchol, ac mae'r ymchwil academiaidd yn ategu hyn. Nid yw proses ysgaru sy'n gofyn un ai am gyfnod o wahanu a all fod yn anymarferol neu am brawf o ymddygiad, a all arwain at fai, yn cynnig y ffordd orau i ddod i gytundeb.

Bydd rhai deisebwyr am ailystyried eu penderfyniad i ysgaru ar ôl iddynt gyflwyno'r ddeiseb. Os oes gobaith nad yw priodas wedi chwalu'n anadferadwy, gall honiadau am ymddygiad y priod arall waethygu perthynas fregus a gall hynny gymhlethu pethau, os oes plant, wrth gydweithio fel rhieni yn y dyfodol. O ran y bobl hynny sydd â chyfle i gymodi a rhoi stop ar yr ysgariad, gall honiadau am ymddygiad wneud hynny'n llai tebygol.

Gellir ystyried bod y gyfraith bresennol, wrth ei harfer, yn rhwystro unrhyw ymdrech gan gyplau i gymodi. Mae'r darpariaethau atodol am y ffeithiau gwahanu yn cyfyngu'r cyfnod pryd y gall cyplau geisio gyd-fyw eto, mewn unrhyw ymdrech i gymodi, ar ôl iddynt wahanu gyntaf.⁴² Pwrpas y cyfyngiad hwn yw rheoleiddio beth fydd yn dystiolaeth dderbyniol o wahanu. Rydym yn ymwybodol o'r farn y gall y cyfyngiad roi cyplau o dan anfantais os bydd eu hymdrechion i gymodi yn parhau'n hirach na'r hyn a ganiateir ond heb adfer y briodas.

Mae gweithdrefnau'r gyfraith bresennol yn ymddangos yn annheg

Rhaid i'r llys edrych ar fanylion y ffaith a ddefnyddir a rhaid iddo gael ei argyhoeddi bod y ffaith wedi'i phrofi ar sail y dystiolaeth. Efallai ni fydd gan ddeisebwyr unrhyw ffordd i wybod faint o dystiolaeth a fydd yn ddigonol felly gallant deimlo bod angen gwneud honiadau ychwanegol neu fwy perswadiol i sicrhau bod y ddeiseb yn cyrraedd y nod, fel petai. Gall y broses hon greu mwy o ddrwgdeimlad rhwng y deisebydd a'r atebydd. Hyd yn oed pan fydd yr ymatebwyr yn cytuno ar yr ysgariad, gallant anghytuno'n chwyrn â'r

⁴⁰ Adroddwyd yn http://www.resolution.org.uk/news-list.asp?page_id=228&n_id=301 in 'MPs need to get behind no-fault divorce if they're serious about reducing family conflict', 3 Rhagfyr 2015.

⁴¹ *The Field of Choice*, t.26.

⁴² Deddf Achosion Priodasol, adran 2(5).

honiadau yn y manylion atodol. Prin yw'r cyfle yn y broses i unioni hyn oni bai eu bod yn dymuno herio'r ysgariad.

Pan fydd ymatebwyr yn ateb y ddeiseb ysgaru, dim ond tua 2% ohonynt sy'n rhoi hysbysiad eu bod yn bwriadu herio ("amddiffyn") yr ysgariad. Yn nyfarniad y Llys Apêl yn achos Owens v Owens, a ddaeth i law ym mis Mawrth y llynedd, dywedodd Syr James Munby, Llywydd yr Adran Deulu ar y pryd:

In the year to January 2017, there were 113,996 petitions for divorce. The details are not published, but I understand that, over the same period, notice of intention to defend was given in some 2,600 acknowledgements of service (some 2.28% of all petitions) while actual answers filed were about 760 (some 0.67% of all petitions). Nid oes ystadegau ar gael ond gellir cymryd yn ganiataol mai dim ond nifer fach o ddeisebau sy'n mynd ymlaen i wrandawriad terfynol sy'n cael ei herio, rhyw lond llaw o bosibl. So, the attritional effect of the process itself reduces from an initial 2.28% of respondents who are minded to oppose the petition to an utterly trivial, let us say something of the order of magnitude of 0.015%, of respondents who actually carry their opposition through to a contested hearing.⁴³

Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil pellach gan Liz Trinder, *No Contest*, ym mis Ebrill eleni. Roedd yn edrych ar y ffordd y mae atebyddion yn defnyddio'r cyfle i herio'r achos ysgariad. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ofyn pam y mae cyn lleied o'r 2% o achosion lle mae'r atebydd yn cofnodi'r bwriad i herio yn cael eu herio yn y llys yn y pen draw:

Most defended cases that do reach the courts are settled, rather than decided by a judge. The outcomes therefore reflect the relative bargaining capacity of the parties, not an inquiry into the truth of allegations. The court's willingness to accept the results of some deals appeared intellectually dishonest, even if it did bring an end to a damaging dispute.

The pressure to settle reflects a realistic appraisal by family lawyers and judges that defence is costly, unhelpful and ultimately futile for the parties and burdensome for the courts. The defence process does increase acrimony, contrary to family justice policy. It can be misused by controlling spouses to make the divorce unnecessarily difficult.⁴⁴

Mae'r gyfraith bresennol yn agored i gam-gofnodi ymddangosol o'r dystiolaeth

Mae'n anochel bod rhaid i'r llys gymryd y dystiolaeth yn y rhan fwyaf o ddeisebau ysgaru fel y mae, gan fod cyn lleied ohonynt yn cael eu herio. Anaml, felly, y ceir croesholi ar y dystiolaeth. *Finding Fault?* yw'r ymchwil helaeth ddiweddaraf sy'n dangos sut mae'n bosibl i dystiolaeth gael ei cham-gofnodi gan bobl sy'n ceisio ysgariad. Gellir cam-gofnodi dyddiadau cyfnodau gwahanu neu bryd y cafwyd gwybod am odineb er mwyn cwrdd â gofynion y ffeithiau. Gellir gorliwio ymddygiad:

In practice, therefore, divorce petitions are best viewed as a narrative produced to secure a legal divorce. They are not - as a lay person might suppose they should be - an accurate reflection of why the marriage broke down and who was 'to blame': that is not what the law requires. These are not new problems. The manipulation of Facts is

⁴³ [2017] EWCA Civ 182, para.98. Ar gael yn <https://www.judiciary.uk/judgments/tini-owens-v-hugh-john-owens/>.

⁴⁴ Liz Trinder a Mark Sefton, *No Contest: Defended Divorce in England and Wales* (London: Nuffield Foundation, 2018), t.5.

now more routine and prosaic than the staged or bogus 'hotel adulteries' with strangers of the 1930s, but it remains an issue.⁴⁵

Roedd Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi tynnu sylw at ddiffygion y gyfraith bresennol yn ei bapur trafod *Facing the Future*, gan ddweud am y ffeithiau gwahanu:

Even if it is clear what is required, there is ample scope for the parties to present perjured evidence about the date of their separation if they do not want to wait for the requisite period. This would be undetectable unless corroborative evidence were required from witnesses. Furthermore, if the test of separation is too strict, it is difficult for the couple to reconsider the position or attempt a reconciliation during the period. If it is too weak, it is of little value as a test of whether the marriage has indeed broken down.⁴⁶

Nid yw'r gyfraith bresennol yn rhoi cymorth cadarnhaol i blant

Y dull modern o ymdrin â chyfraith teulu yw cymell cydweithredu wrth rianta ac wrth ddatrys anghydfodau. Mae'n ddull o weithredu a welir bob dydd ymysg ymarferwyr cyfraith teulu ac mewn statudau fel Deddf Plant 1989. Nid yw'r pwyslais ar ymddygiad blaenorol a "bai" yn y broses ysgaru yn ategu'r dull hwn o weithredu sy'n edrych i'r dyfodol a gall danseilio trefniadau eraill sydd angen eu gwneud.

Mae unrhyw honiadau am ymddygiad yn aros yn y ddeiseb ysgaru hefyd. Os gwneir honiadau o gam-drin domestig, nid yw'r ddeiseb ysgaru ei hun yn ysgogi trefniadau i gadw dioddefwyr a phlant yn ddiogel. Gall y trefniadau hyn ymwneud â chynnwys yr heddlu neu geisio gorchymyn gwarchod gan y llys.⁴⁷ O'r sampl o 135 deiseb ymddygiad a archwiliwyd gan awduron *Finding Fault?*, roedd 42.2% wedi honni "some form of abuse that would meet the cross-government definition of abuse".⁴⁸

Mae *Finding Fault?* yn nodi bod pryderon yn bod ers amser maith ynghylch "the disjunction between a blame-based divorce law and attempts to limit the impact of parental conflict on children" ac yn nodi bod hyn yn creu anawsterau i ymarferwyr wrth ganolbwyntio ar ymddygiad a bai ac wedyn "change tack completely by trying to promote parental cooperation on child arrangements".⁴⁹

Disgrifiwyd y broblem gan Gomisiwn y Gyfraith ym 1988, wrth ailedrych ar y gyfraith gyfredol (yn y dyfyniad isod, "custody" yw'r hyn rydym yn awr yn ei alw, yn dilyn Deddf Plant 1989, yn drefniadau sy'n pennu gyda phwy y bydd y plentyn yn byw):

First, the divorce process itself *is* likely to exacerbate the trauma of the parental separation for the children. Perceived lack of fairness and the exacerbation of bitterness and hostility will make the divorce more difficult for the children as well as the parents. The more stressful the divorce process is for the parents the less time and ability they will have to provide emotional support for the children. If there is conflict between the parents, the children may be encouraged to take sides, which

⁴⁵ *Finding Fault?*, tt.12–13.

⁴⁶ *Facing the Future*, t.35.

⁴⁷ Er enghraifft, gorchymyn rhag molestu neu orchymyn i feddiannu'r cartref priodasol o dan Adran 4 Deddf Cyfraith Teulu 1996.

⁴⁸ *Finding Fault?*, t.75. Mae'r diffiniad traws-lywodraethol o gam-drin domestig wedi'i gyhoeddi yn <https://www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse>.

⁴⁹ *Finding Fault?*, t.106.

may be very distressing for them particularly if arrangements for their future are in issue. Contested custody proceedings increase uncertainty and increase the insecurity felt by many children following marital breakdown. Secondly, a likely effect of perceived unfairness and the conflict and hostility engendered by the system is to poison post-divorce relationships. Parents who have been further alienated from each other by the divorce process will be less likely to be able to exercise their parental responsibilities jointly. [...] Where children have been encouraged to take sides, their relationship with both parents may be impaired as a result of the conflict of loyalties.⁵⁰

Ym 1995, roedd ymateb y Llywodraeth i'w hymgyngoriad ar ei chynigion i ddiwygio cyfraith ysgariad yn dangos pryder cyffredinol bod y gofynion cyfredol o ran ffeithiau – pa un a ydynt wedi'u seilio ar ymddygiad neu ar wahanu – yn rhoi canlyniadau gwael i blant sy'n mynd drwy gyfnod sydd eisoes yn anodd:

Research has shown that children suffer and are damaged as a result of **conflict** between their parents, whether the parents are living together or apart. Consultees considered that the current system encourages conflict, by providing an incentive to seek a quick divorce on the basis of allegations of fault. [...] Furthermore, many couples who seek a divorce on the basis of consensual separation are forced, for financial reasons, to 'separate' by living as two households under one roof. This gives rise to an artificial atmosphere that is confusing and harmful to children.⁵¹

⁵⁰ *Facing the Future*, t.26. Mae'r testun italig yn y gwreiddiol.

⁵¹ *Looking to the Future*, t.11. Mae'r testun trwm yn y gwreiddiol.

Y dull diwygio

Mae cyfraith ysgariad yn ymwneud â dod â phriodas i ben yn gyfreithiol. Nid yw hyn yr un peth â'r methiant priodasol ei hun na'r broses o ysgaru a brofir gan filoedd o deuluoedd bob blwyddyn. Fel y nodwyd ers talwm, "the real wound is inflicted not by the divorce but by the previous break-up of the marriage and separation of the parties".⁵²

Gan gofio hyn, bydd yn fuddiol diffinio'r egwyddorion sy'n sail i ddull gweithredu'r Llywodraeth wrth ddiwygio gofynion cyfreithiol penodol ar gyfer ysgaru er mwyn lleihau gwrthdaro teuluol ar adeg anodd.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod priodasau'n methu er gwaethaf ymdrechion gan gyplau i ddatrys problemau yn ystod y briodas. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod y penderfyniad i ysgaru'n cael ei wneud yn ddifeddwl. Ar adeg deisebu neu gyfarwyddo cyfreithiwr, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o bobl wedi dod i benderfyniad pendant. Nid ydym yn credu bod gofynion y gyfraith yn atal pobl rhag ysgaru, dim ond eu bod yn troi'r broses yn un wrthwynebol heb fod angen. Mae'n ymddangos nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth yw gofynion y gyfraith nes eu bod yn mynd drwy ysgariad eu hunain. Nid oes tystiolaeth bod modd priodoli'r penderfyniad i ysgaru i ofynion y gyfraith.

Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd ei chynigion ar gyfer diwygio yn cysoni cyfraith ysgariad ag egwyddorion y gyfraith ehangach sy'n ymwneud ag anawsterau teuluol a'r ffordd y mae nifer mawr o ymarferwyr cyfraith teulu yn trafod eu cleientiaid. Bydd hefyd yn cydnabod ymreolaeth pobl wrth wneud penderfyniadau am ddigwyddiadau bywyd pwysig a thrwy leihau gwrthdaro teuluol bydd yn helpu cyplau sy'n ysgaru i gyflawni eu cyfrifoldeb i gydweithredu â'i gilydd ar y penderfyniadau ymarferol sydd eu hangen er mwyn i'r teulu allu symud ymlaen yn y ffordd fwyaf llesol bosibl yn yr amgylchiadau.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried ffyrdd eraill i newid y gyfraith i leihau gwrthdaro teuluol. Yn y bennod hon rydym hefyd yn amlinellu'n fyr y rhesymau dros beidio â chynnig gweithredu ar y rhain.

Prif egwyddorion diwygio

Amcan polisi'r Llywodraeth yw lleihau gwrthdaro teuluol. Y ddwy brif egwyddor rydym yn eu dilyn wrth ddiwygio yw cysoni cyfraith ysgariad â chyfraith teulu ehangach a chydabod y bydd proses gyfreithiol nad yw'n creu neu'n gwaethygu gwrthdaro yn well o ran helpu oedolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dyfodol eu hunain ac, yn bwysicaf oll, am ddyfodol eu plant. Felly rydym yn credu y dylai deddfwriaeth sicrhau dau fater: bod y penderfyniad i ysgaru'n parhau i fod yn un ystyriol, gan roi cyfle i'r ddau briod newid cwrs, ac na fyddant yn gorfod bodloni gofynion cyfreithiol sydd heb fudd iddyn nhw na'r wladwriaeth ac sy'n gallu arwain at wrthdaro parhaus a chanlyniadau gwael i blant.

⁵² Comisiwn y Gyfraith, *The Field of Choice*, t.22 (cyfeirio at bwynt a wnaed yn *Putting Asunder*).

Dull cyson a phwylllog i ymdrin ag anawsterau teuluol

Er mai un digwyddiad yw diddymu priodas yn gyfreithiol, mae proses ffurfiol ar gyfer cyrraedd y digwyddiad hwn, sy'n dechrau drwy'r ddeiseb ysgaru. Cyn hynny ceir sylweddoliad gan un parti neu'r ddau fod eu perthynas bersonol â'i gilydd wedi cyrraedd man lle na allant bellach fyw gyda'i gilydd fel cwpl priod.

Mae'r broses bresennol yn cyfleu negeseuon cymysg. Mae'n caniatáu ysgaru heb wneud honiadau ond mae'n ei gwneud yn ofynnol bod cwpl wedi byw ar wahân am gyfnod hir. Mae'r broses bresennol yn caniatáu ysgaru ar sail honiadau am ymddygiad a gellid dweud ei bod yn cymell hyn drwy beidio â'i gwneud yn ofynnol bod cyplau wedi byw ar wahân am unrhyw gyfnod cyn hynny.

Mae cyfraith teulu yn rhoi pwyslais mawr ar les plant. Er enghraifft, mae Deddf Plant 1989 yn pennu mai "the child's welfare shall be the court's paramount consideration" wrth benderfynu unrhyw fater perthnasol sy'n ymwneud â magu'r plentyn.⁵³ Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith bresennol ar gael ysgariad yn ystyriol o blant. Mae'r angen i wneud honiadau am ymddygiad er mwyn cael ysgariad heb fyw ar wahân am gyfnod cyn hynny yn gallu creu neu waethygu gwrthdaro a phegynnu barn plant am y rhieni sy'n ateb y ddeiseb a'u hoffter ohonynt.

Mae honiadau am ymddygiad yn gallu ei gwneud yn anodd dod i gytundeb ar drefniadau i'r dyfodol yng nghyswllt plant ac arian. Dylai'r broses ysgaru fod yn amser ar gyfer ystyried a myfyrio, nid edliw.

Cydnabod ymreolaeth a chyfrifoldeb

Mae priodas yn sefydliad hanfodol sy'n bwysig i'r cyplau priod eu hunain, i'w teuluoedd ac i gymdeithas gyfan. Priodas mewn enw yn unig ydy priodas sydd wedi chwalu y tu hwnt i adfer. Nid yw o les i briodas fel sefydliad fod gofynion yn cael eu gosod sy'n rhwystro diddymu'r gragen wag hon ac yn gallu gwaethygu gwrthdaro teuluol ar ôl cwblhau'r achos cyfreithiol.

Mae priodas yn gweithio drwy gydsyniad. Nid yw'n ofynnol i gyplau gyfiawnhau eu penderfyniad gwirfoddol i briodi: mae'n benderfyniad annibynnol. Os bydd priodas wedi methu y tu hwnt i adfer ac nad yw un parti neu'r ddau yn cydsynio i aros yn briod, bydd y cwlwm cyfreithiol yn anwirfoddol.

Mae'r Llywodraeth yn gadarn o blaid priodas fel uniad cyfreithiol a wneir yn wirfoddol. Felly rydym yn credu y dylai'r gyfraith barchu ymreolaeth pobl wrth wneud penderfyniadau ar ddiwedd priodas yn gymaint ag ar ei dechrau.

Rydym yn cydnabod y bydd un parti i briodas weithiau'n amharod i ysgaru. Rydym yn credu bod y nifer fach iawn yr ysgariadau sy'n cael eu herio yn dangos bod y rhan fwyaf o atebyddion yn derbyn bod y briodas ar ben. Mae proses ddau gam y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt yn rhoi cyfle i bobl ystyried goblygiadau ysgaru a myfyrio ar y penderfyniad. Hyd yn oed os bydd posibilrwydd o adfer y briodas ar ôl cyflwyno deiseb, gall y gofyniad i ddisgrifio ymddygiad y priod arall roi'r cychwyn gwaethaf posibl i unrhyw obaith o gymodi.

⁵³ Deddf Plant 1989, adran 1(1).

Amlinelliad o'r cynigion diwygio

Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig diddymu'r gofyniad i ddeisebwyr roi tystiolaeth o un neu ragor o ffeithiau a rhoi proses o hysbysiad am briodas sydd wedi chwalu'n anadferadwy yn ei le. Yn y broses hon, byddai'r person sy'n ceisio'r ysgariad (neu'r cwpl ar y cyd o bosibl) yn rhoi hysbysiad i'r llys o'r bwriad i ysgaru, gan ddatgan ei gred bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Felly byddai methiant anadferadwy yn parhau'n unig sail dros ysgaru. Yn y broses dau gam rydym yn cynnig ei chael, ni fyddai modd i'r llys roi'r dyfarniad dros dro cyntaf (y dyfarniad nisi) os nad yw'n sicr bod y briodas wedi chwalu y tu hwnt i adfer.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig diddymu'r gallu i herio'r ysgariad fel rheol gyffredinol. Gall herio ysgariad fod yn gostus ac yn feichus yn emosiynol. Prin iawn yw'r atebyddion - dim ond tua 2% - sy'n dewis herio'r ysgariad, ac ni fydd herio ysgariad bron byth yn arwain at wrthod y dyfarniad. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol ei bod yn bosibl i rai sy'n cyflawni cam-drin domestig ac yn ymddwyn yn ormesol gamddefnyddio'r broses gyfreithiol drwy herio (neu groesddeisebu â honiadau am ymddygiad y deisebydd) er mwyn parhau i gam-drin.⁵⁴

I gadw'r ddau gam yn y broses ysgaru (dyfarniad nisi a dyfarniad absoliwt), mae'r Llywodraeth yn cynnig gorchymyn cyfnod gofynnol. Ar ôl y cyfnod gofynnol hwn, gellid rhoi'r dyfarniad ysgaru terfynol ar ôl cael cais gan y naill barti neu'r llall neu, o bosibl, y ddau barti ar y cyd. Gallai'r llys, fel nawr, barhau i ohirio achosion pe byddai gobaith rhesymol o gymodi.⁵⁵

Ystyried posibiliadau eraill ar gyfer diwygio

Mae'r cyfuniad o sail, ffeithiau ymddygiad a ffeithiau gwahanu yn rhoi'r gallu i ddiwygio'r gyfraith bresennol mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn nodi nifer o ffyrdd posibl isod gan amlinellu ein rhesymau dros eu diystyru fel ffyrdd posibl i ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith bresennol ac i leihau gwrthdaro teuluol.

Darpariaethau sydd wedi'u deddfu yn Neddf Cyfraith Teulu 1996

Roedd y Senedd wedi deddfu i ddileu'r holl ffeithiau ymddygiad a gwahanu drwy Ddeddf Cyfraith Teulu 1996. Fodd bynnag, roedd y ddeddfwriaeth o ganlyniad yn fwy cymhleth na'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith. Ni chafodd y darpariaethau eu cychwyn erioed a chawsant eu diddymu yn 2014.

Mae'r Llywodraeth wedi ailedrych ar y darpariaethau yn Rhan 2 Deddf Cyfraith Teulu 1996 ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'n ymarferol eu hailgyflwyno. Yn y broses ysgaru newydd honno, roedd hi'n hanfodol i'r partïon fod yn bresennol mewn cyfarfod gwybodaeth cyn datgan tor priodas. Canfu gwerthusiad academaidd o brofion peilot ar fodolau amrywiol o gyfarfodydd gwybodaeth fod y cyfarfod gwybodaeth yn cael ei gynnal yn rhy hwyr i adfer priodasau y mae modd eu hadfer. Hefyd, roedd pobl a oedd yn ansicr ynglŷn â'u priodas yn fwy tueddol o ysgaru ar ôl mynd i'r cyfarfod. Roedd darpariaethau Rhan 2 yn uchelgeisiol ac yn fwy cymhleth na'r cynigion a nodir yn y papur ymgynghori

⁵⁴ Mae'r dadansoddiad o'r deisebau sy'n dibynnu ar ffeithiau am ymddygiad yn *No Contest*, tt.43–45, wedi canfod y canlynol am yr achosion lle roedd yr ymatebydd yn bwriadu herio: “[...] more likely to include allegations of violence against the petitioner and to meet the cross-government definition of abuse, than main sample cases” (t.44).

⁵⁵ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 6(2).

hwn. Mae'r Llywodraeth yn credu y gall y cynigion y mae'n eu nodi nawr ar gyfer diwygio'r broses gyfreithiol bresennol gyflawni un o brif amcanion deddfwriaeth 1996, sef lleihau gwrthdaro, heb orfod diwygio'r gyfraith yn ei chyfanrwydd a chyflwyno proses gwbl newydd.

Mae'n glir mai'r hyn sydd ei angen nawr yw diwygio sy'n disodli'r gofynion am ffeithiau ac yn rhoi proses ddiwygiedig yn eu lle nad yw'n agored i'r posibilrwydd o gam-gofnodi ymddangosol o'r dystiolaeth ac nad yw'n creu neu'n gwaethygu gwrthdaro. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn canolbwyntio yn hytrach ar yr ymchwil diweddarach, y dystiolaeth o blaid diwygio a graddau'r diwygiadau sydd eu hangen i'r gyfraith bresennol er mwyn darparu proses ddiwygiedig i ddod â phriodas i ben yn gyfreithiol.

Byrhau'r cyfnodau gwahanu gan gadw'r ffeithiau ymddygiad

Cyflwynwyd y cymysgedd presennol o ffeithiau ymddygiad a gwahanu wrth ddiwygio'r gyfraith ym 1969. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried byrhau'r cyfnodau sy'n ofynnol gan y ffeithiau gwahanu i gymell eu defnyddio cyn un o'r ffeithiau ymddygiad. Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai hyn yn datrys y broblem o wrthdaro teuluol, gan y byddai'n gadael gwahaniaeth o ran amseru o hyd rhwng y ffeithiau ymddygiad a'r ffeithiau gwahanu. Byddai hefyd yn gam yn ôl o'r safbwynt egwyddorol roedd y Senedd wedi'i gyrraedd ym 1996, a fyddai ymysg pethau eraill wedi dileu "bai" neu ffeithiau am ymddygiad o'r broses ysgaru.

Roedd cyfnodau gwahanu tebyg yn yr Alban nes i Ddeddf Cyfraith Teulu (Yr Alban) 2006 eu byrhau o ddwy flynedd i un ac o bum mlynedd i ddwy. Roedd hefyd wedi diddymu'r ffaith o adael am ddwy flynedd, a oedd yn afraid o ganlyniad i fyrhau'r cyfnodau gwahanu. Roedd hyn yn dilyn argymhellion cynharach a wnaed gan Gomisiwn Cyfraith yr Alban.⁵⁶

Mae gwahaniaethau rhwng yr Alban a Chymru a Lloegr o ran y broses o ysgaru a gwneud trefniadau cysylltiedig. Y gwahaniaethau hyn sy'n sail i'r annhebygrwydd amlwg yn y ddibyniaeth ar ffeithiau ymddygiad rhwng y ddwy awdurdodaeth. Cyn y diwygio yn yr Alban, roedd tua un ym mhob pump o bobl yn ceisio ysgariad ar sail ffaith ymddygiad. Yng Nghymru a Lloegr, mae'r gyfran yn fwy o lawer: tri ym mhob pump erbyn hyn. Felly rydym yn credu na fyddai diwygio tebyg yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau'r math o effaith rydym am ei gweld er mwyn plant a theuluoedd.

Cyfnodau gwahanu fel unig ffeithiau

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried diddymu'r ffeithiau ymddygiad gan adael y ffeithiau gwahanu (gyda chyfnodau diwygiedig) fel yr unig ffeithiau i'w defnyddio. Rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai hyn yn datrys y problemau a nodwyd yn gynharach mewn perthynas â chydysniad y priod arall neu gam-gofnodi dyddiadau gwahanu.

Ffaith hysbysu fel llwybr ychwanegol

Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig cadw'r pum ffaith bresennol ac ychwanegu ffaith hysbysu yn ddewis arall iddynt. Byddai modd o hyd i un priod wneud honiadau yn erbyn y priod arall er mwyn ei ormesu neu geisio achosi gwrthdaro'n fwriadol. Felly rydym yn credu na

⁵⁶ Comisiwn Cyfraith yr Alban, *Report on Reform of the Ground for Divorce*, Scot Law Com No.116 (Edinburgh: HMSO, 1989). Ar gael ar-lein yn https://www.scotlawcom.gov.uk/download_file/view/377/.

fyddai cynnig o'r fath yn lleihau gwrthdaro teuluol yn sylweddol. Byddai hefyd yn creu dryswch ychwanegol mewn cyfraith sydd eisoes yn gymhleth.

Ysgariad heb y llys

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod rhai awdurdodaethau wedi caniatáu rhoi dyfarniadau ysgaru heb gynnwys y llys. Credwn ei bod yn briodol bod ysgaru yn parhau'n fater i'r llys, lle mai'r llys yn unig fydd yn gallu rhoi dyfarniadau ysgaru. Mae'r annibyniaeth sy'n cael ei sicrhau gan y llys yn angenrheidiol, er enghraifft, lle mae rheswm gan un parti dros oedi'r dyfarniad absoliwt. Hefyd byddai'r goblygiadau o roi ysgariad heb achos llys yn peri ansicrwydd i bobl sy'n symud rhwng awdurdodaethau.

Er nad yw priodi yn broses llys, mae statws cyfreithiol yn parhau i fod yn fater ar gyfer y llys os oes cwestiynau'n codi ynghylch dilysrwydd y briodas.

Y cynigion

Yr amcan polisi yng nghynigion y Llywodraeth yw datrys yr anawsterau sy'n cael eu creu gan y gofyniad statudol presennol i ddangos tystiolaeth o ymddygiad neu wahaniad. Felly mae ein diwygio arfaethedig yn ceisio diwygio'r gyfraith yn egwyddorol i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gofyniad hwnnw. Byddai sylfaen hanfodol y broses ysgaru yn aros yn ei lle.

Prif amcan technegol y Llywodraeth yw dileu'r gofyniad i ddangos tystiolaeth o ffeithiau seiliedig ar ymddygiad neu wahaniad. Y cwestiwn sy'n codi wedyn yw: beth ddylai gymryd ei le? Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r ateb yw gweithdrefn hysbysu, sydd wedi hen ymsefydlu mewn awdurdodaethau eraill, lle bydd un parti neu'r ddau o bosibl yn gwneud cais i'r llys yn datgan eu cred bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Byddai'r cais hwn, yn y lle cyntaf, yn un am y dyfarniad ysgaru amodol.

Cadw'r unig sail dros ysgaru

Nid yw'r Llywodraeth wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n dangos y byddai'n effeithiol dileu neu ddisodli'r unig sail sef bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Felly mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai fod yn bosibl o hyd i bobl ysgaru yng Nghymru a Lloegr ar yr unig sail bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Dyma'r safbwynt a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth yn *Looking to the Future*, y Papur Gwyn ym 1995 a ragflaenodd Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

Roedd y sail wedi'i llunio yng Nghymru a Lloegr yn dilyn ymgynghori helaeth cyn cyflwyno Deddf Diwygio Ysgariad 1969 ac mae wedi profi'n effeithiol mewn nifer o awdurdodaethau cyffelyb, pa un a ydynt yn gofyn am ddangos ymddygiad, gwahaniad, hysbysiad neu gyfuniad o'r rhain i brofi bod y briodas wedi methu.

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r cynnig i gadw methiant y tu hwnt i adfer yn unig sail dros ysgaru? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Sefydlu system hysbysu am fethiant priodas anadferadwy yn lle'r pum ffaith

Felly, yn yr un modd â nifer o awdurdodaethau cyffelyb eraill lle mae wedi gweithio'n dda, rydym yn cynnig proses o roi hysbysiad pan fydd priodas wedi chwalu tu hwnt i adfer. Roedd proses hysbysu yn elfen ganolog yn y cynigion yn Neddf Cyfraith Teulu 1996. Mae'r broses hon, sydd wedi'i hen sefydlu mewn awdurdodaethau eraill, yn ffordd i bobl wneud cais am ysgariad drwy roi hysbysiad i'r llys pan fydd y briodas wedi chwalu ac nid oes modd ei hadfer.

Byddai'r broses hon yn cadw methiant y tu hwnt i adfer yn unig sail dros ysgaru ond yn dileu'r gofyniad presennol i'r deisebydd roi tystiolaeth o ymddygiad neu wahaniad. Yn lle

hynny, bydd un parti neu'r ddau o bosibl yn deisebu'r llys â hysbysiad o'r bwriad i ysgaru. Ni fydd angen bellach i'r llys wirio manylion y dystiolaeth ond bydd yn parhau i wirio agweddau tystiolaethol eraill ar yr hysbysiad i'r llys (er enghraifft, i sicrhau bod gan y llys yr awdurdodaeth i weithredu, bod priodas ddilys y gellir ei diddymu, ac i wyllo rhag deisebau twyllodrus).

Bydd y llys wedyn yn gallu rhoi dyfarniad ysgaru amodol (y dyfarniad nisi) os bodlonir y gofynion eraill hyn ac, ar ôl cael cais gan y naill barti neu'r llall pan fydd cyfnod statudol wedi mynd heibio, gall ofyn i'r llys wneud yr ysgariad yn derfynol drwy gymeradwyo'r dyfarniad absoliwt, fel y mae'n gallu gwneud dan y gyfraith bresennol.

Felly bydd sylfaen hanfodol y gyfraith yn aros yn ei lle. O ganlyniad i ddileu'r pum ffaith, bydd darpariaethau penodol sy'n dibynnu ar y pum ffaith yn cael eu diddymu am na fyddant yn gymwys bellach. Mae'r rhain yn cynnwys y darpariaethau atodol am y ffeithiau,⁵⁷ y ddarpariaeth ar gyfer gwrthod dyfarniad mewn achosion sy'n dibynnu ar wahaniad o bum mlynedd,⁵⁸ y ddarpariaeth ar gyfer amddiffyniad arbennig i atebyddion mewn achosion sy'n dibynnu ar wahaniad o ddwy flynedd neu bum mlynedd,⁵⁹ a'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer rhyddhad i atebyddion.⁶⁰

Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod hi'n hanfodol sefydlu'r broses rhoi hysbysiad yn lle gofynion y pum ffaith, er mwyn lleihau gwrthdaro teuluol. Mae'r Llywodraeth yn pryderu bod rhai penderfyniadau i droi at y ffeithiau sy'n seiliedig ar ymddygiad yn cael eu hysgogi gan yr awydd i osgoi aros drwy wahaniad o ddwy flynedd neu hyd yn oed bum mlynedd. Byddai'r broses hysbysu yn datrys y mater hwn ac yn caniatáu i gyplau priod geisio ysgariad heb orfod datgelu manylion preifat am eu bywyd personol i'r llys. Byddai hefyd yn atal y posibilrwydd, dan y gofynion presennol, o ffugio tystiolaeth o ymddygiad neu ddyddiadau gwahanu.

Mae'r Llywodraeth yn pryderu hefyd am y posibilrwydd nad yw'r broses bresennol yn rhoi mynediad cyfartal i bob grŵp. Er enghraifft, gellir meddwl am sefyllfa lle mae'n ddigon posibl y byddai gan ddiodefwyr cam-drin domestig dystiolaeth o ymddygiad y priod arall (a fyddai'n bodloni'r prawf cyfreithiol am y ffaith ymddygiad) ond y byddai'n ei chael yn anniwel gwneud honiadau o'r fath ac felly'n gorfod aros mewn priodas gamdriniol nes y byddai modd bodloni gofynion y ffaith wahanu berthnasol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gallai hon fod yn sefyllfa niweidiol iawn i lawer o ddiodefwyr cam-drin domestig nad ydynt yn gallu cymryd camau i adael pan fydd yr ymddygiad camdriniol yn dechrau. Drwy ddisodli'r gofyniad i ddangos tystiolaeth o ymddygiad neu wahaniad, gellir helpu diodefwyr i symud oddi wrth y cyflawnwr yn gynharach.

Cwestiwn 2

Mewn egwyddor, a ydych yn cytuno â'r cynnig i sefydlu proses hysbysu yn lle'r pum ffaith? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw

⁵⁷ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 2.

⁵⁸ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 5.

⁵⁹ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 10.

⁶⁰ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 20.

- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cwestiwn 3

Ydych chi'n credu y dylid gwneud darpariaeth i'r ddau barti yn y briodas allu rhoi hysbysiad ar y cyd yn ogystal â gwneud darpariaeth i un parti yn unig allu rhoi hysbysiad? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cyfnod lleiaf y broses ysgaru

Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr egwyddor hirsefydlog y dylai rhoi dyfarniad ysgaru fod yn broses ddau gam gyda dyfarniad amodol a dyfarniad terfynol. Mae'r broses ddau gam hon yn sicrhau cyfnod pwysig rhwng y ddau ddyfarniad i'r cyplau ystyried y goblygiadau ac i'r llys ymchwilio i unrhyw faterion neu eu cyfeirio at Broctor y Frenhines, yn ogystal â chaniatáu i fframwaith sylfaenol y gyfraith aros yn ei le.

Mae'r Llywodraeth yn credu, fel nawr, y dylid cael cyfnod gofynnol ar gyfer y broses ysgaru. Mae angen amser ar y cwpl i ystyried goblygiadau'r penderfyniad i ysgaru ac i gytuno ar y trefniadau ymarferol ar gyfer y dyfodol, ar eu cyfer nhw ac ar gyfer unrhyw blant.

Er bod dau ddyfarniad mewn ysgariad sy'n nodi penderfyniadau'r llys, mae'r broses gyfreithiol yn dechrau gyda deiseb ysgaru. Golyga hyn bod tri cham allweddol i'r broses: y ddeiseb, y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt. Er bod gwneud y ddeiseb yn rhoi hysbysiad am y briodas, dim ond yn ystod cam y dyfarniad nisi y bydd y llys yn canfod bod y briodas, dros dro o leiaf, wedi chwalu y tu hwnt i adfer. Yn ogystal, ni fydd y llys yn gallu gwneud y rhan fwyaf o'r gorchmynion ariannol nes bydd y dyfarniad nisi wedi cael ei roi.⁶¹

Felly, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch a ddylid mesur cyfnod gofynnol rhwng rhoi hysbysiad a rhoi'r dyfarniad terfynol neu rhwng rhoi dyfarniad dros dro a rhoi dyfarniad terfynol. Ar hyn o bryd, ni all y llys roi dyfarniad terfynol nes bod chwe wythnos a diwrnod wedi mynd heibio ar ôl rhoi'r dyfarniad nisi. Yn ymarferol, mae'r cyfnod rhwng yr dyfarniadauau yn gyfnod hirach a gall amrywio am nifer o resymau, gan gynnwys delio â'r parti arall ac â chynrychiolwyr cyfreithiol yn ogystal â buddioldeb cytuno ar y trefniadau ariannol cyn yr ysgariad terfynol.

Mae'r Llywodraeth am gael cyfnod lleiaf er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol i'r penderfyniad i ysgaru. Nid oes cyfnod penodol a fyddai'n gweithio ar gyfer pob cwpl. Yn yr un modd â dan y gyfraith bresennol, ni fydd y dyfarniad terfynol yn cael ei roi'n awtomatig

⁶¹ Fodd bynnag, mae adran 22 Deddf Achosion Priodasol 1973 yn galluogi i'r llys wneud fel a ganlyn: "make an order for maintenance pending suit". Gellir rhoi gorchmyn, er enghraifft, i un priod wneud taliadau misol i'r llall tra mae achos yr ysgariad yn parhau.

ar ddyddiad penodol.⁶² Rydym yn ymwybodol mai cyfnod yr ysgariad a sut y bydd hynny'n cael ei fesur fydd y maes a fydd o'r diddordeb mwyaf i lawer o ymatebwyr yr ymgynghoriad hwn, ac rydym yn dymuno asesu safbwyntiau ehangach ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni amcan y polisi, sef lleihau gwrthdaro teuluol.

Er bod rhai pobl yn gallu dod â'u priodas i ben cyn pen chwe wythnos a diwrnod ar ôl cael dyfarniad nisi ar hyn o bryd, bydd hynny'n dilyn cyfnod rhwng cyflwyno'r ddeiseb a'r dyfarniad nisi a allai fod wedi bod yn gyfnod hirach. Mae'r cyfnod hwn rhwng y ddeiseb a'r dyfarniad nisi yn dibynnu ar nifer o newidynnau (fel unrhyw drafodaethau rhwng cyfreithiwr y deisebydd a chyfreithiwr yr ymatebydd) yn ogystal ag amseroedd y broses (gan gynnwys delio â'r ymatebydd, y mae'n rhaid iddo gydnabod yr achos).

Felly, mae'r Llywodraeth yn awyddus i brofi cynnig y byddai cyfnod lleiaf o chwe mis yn rhoi'r sefydlogrwydd i gyplau gynllunio ymlaen llaw yn ogystal ag ystyried goblygiadau'r penderfyniad i ysgaru. Os caiff y cyfnod gofynnol hwn ei fesur rhwng y dyfarniadau ysgaru, gall y cyfnod fod yn hirach na'r cyfnod presennol rhwng y dyfarniadau ar gyfer rhai cyplau. Os bydd y cyfnod lleiaf hwn yn cael ei fesur o adeg cyflwyno'r ddeiseb i'r dyfarniad terfynol, gall fod yn gyfnod byrrach ar gyfer rhai cyplau. Rydym yn credu y gall y cyfnod gofynnol hirach hwn helpu rhai cyplau i wneud trefniadau ymarferol ynghylch materion fel tai, ysgolion a gofal plant ymhell cyn i'r briodas ddod i ben yn gyfreithiol gyda'r dyfarniad terfynol.

Mae'r Llywodraeth am sicrhau bod gan gyplau ddigon o amser i fyfyrion ar y penderfyniad i ysgaru ac i wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r broses gyfreithiol bresennol yn egluro i gyplau pa bryd y bydd eu priodas yn dod i ben yn gyfreithiol. Felly, rydym yn awyddus i bobl sydd â phrofiad o ysgaru ac ymarferwyr cyfraith teulu ddweud wrthym beth fyddai'r hyd gorau ar gyfer y cyfnod lleiaf er mwyn cefnogi teuluoedd drwy gyfnod anodd, a sut ddylai'r cyfnod lleiaf hwn gael ei fesur.

Dan y gyfraith bresennol, mae pŵer presennol gan y llys i bennu cyfnod byrrach mewn achos penodol drwy wneud gorchymyn arbennig.⁶³ Gellir defnyddio'r pŵer hwn mewn achosion eithriadol (er enghraifft, lle mae angen rhoi dyfarniad terfynol oherwydd bod un parti mewn perygl o farw'n fuan).

Mae cwestiwn arall yn codi ynghylch a ddylai'r gyfraith roi ystyriaeth i'r ffaith bod cwpl wedi byw ar wahân cyn gwneud y ddeiseb. Ar un olwg, mae'n bosibl na fydd budd cyhoeddus mewn mynnu bod cwpl sydd wedi byw ar wahân am chwe mis neu ragor cyn gwneud cais am ysgariad yn aros chwe mis pellach am y dyfarniad terfynol. Fodd bynnag, byddai caniatáu cyfnod byrrach yn yr achos hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r partion ddangos tystiolaeth o'r gwahaniad, a gallai hyn arwain at broblemau tebyg i'r rheini a nodwyd yn gynharach. Mae'r Llywodraeth yn credu bod budd i'r cyhoedd mewn sicrhau un cyfnod lleiaf hyd yn oed lle cafwyd cyfnod o wahanu cyn hynny, ond byddai o ddiddordeb i ni glywed barn ychwanegol.

⁶² Hefyd, byddai angen o hyd i'r partion ofyn i'r llys am ei ganiatâd i roi dyfarniad terfynol os oedd y dyfarniad nisi wedi'i roi mwy na deuddeg mis cyn hynny.

⁶³ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(5). Mewn achosion lle gwneir cais am roi dyfarniad yn gynharach, mae'r llys yn pennu sut i gynnal y gweithrediadau yn Rheol 7.32 o'r Rheolau Gweithdrefnau Teulu ac yn rhoi cyfarwyddyd pellach ym mharagraffau 8.1–8.4 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer 7A cysylltiedig. (Cyhoeddwyd y Rheol yn https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/parts/part_07 a'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_07a.)

Pe byddai hi'n bosibl i gwpl wneud cais ar y cyd i'r llys, ni fyddai'r Llywodraeth yn cynnig cyfnod lleiaf byrrach ar gyfer ceisiadau ar y cyd. Credwn y gallai hyn roi mantais i un parti – er enghraifft, drwy gytuno ar ddeiseb ar y cyd dim ar yr amod o gael setliad ariannol gwell – a byddai hynny felly'n mynd yn groes i'n hamcan polisi o leddfu natur wrthwynebol y broses gyfreithiol a lleihau gwrthdaro teuluol.

Cwestiwn 4

Rydym wedi nodi'r rhesymau y mae'r Llywodraeth yn credu ei bod hi'n ddefnyddiol i gael y broses dyfarniad ddau gam (y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt). A ydych yn cytuno?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Mae'r Llywodraeth am brofi'r cynnig y dylid cael cyfnod o chwe mis o leiaf rhwng rhoi dyfarniad nisi a rhoi'r dyfarniad absoliwt. Credwn y bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r rhan fwyaf o gyplau ystyried goblygiadau ysgaru a dod i gytundeb ar drefniadau ymarferol, heb iddo fod yn gyfnod o ansicrwydd sydd mor hir fel y byddai'n cael effaith hirdymor ar blant.

Cwestiwn 5

Pa gyfnod *lleiaf* a fyddai'n fwyaf priodol yn eich barn chi i leihau gwrthdaro teuluol, a sut y dylid mesur hynny? Rhowch eich rhesymau yn y blwch testun.

- Chwe wythnos (y cyfnod gofynnol presennol yw chwe wythnos a diwrnod)
- Tri mis
- Chwe mis
- Naw mis
- Cyfnod gwahanol (nodwch hwn yn y blwch testun)
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cwestiwn 6

A oes unrhyw amgylchiadau lle dylid lleihau'r cyfnod lleiaf neu ei ymestyn hyd yn oed? Os felly, rhowch esboniad yn y blwch testun.

- Oes
- Nac oes
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Mae dirymedd yn faes ar wahân mewn cyfraith priodas sy'n ymwneud â dilysrwydd cyfreithiol priodas neu bartneriaeth sifil. Mewn amgylchiadau penodol iawn, gellir diddymu'r cwlwm cyfreithiol drwy ddyfarniad dirymedd (ar gyfer priodas) neu orchymyn

dirymedd (ar gyfer partneriaeth sifil).⁶⁴ Mae hyn yn cael ei alw fel arfer yn ddirymu. Mae'n wahanol i ysgaru o ran diben, sydd wedi'i fwriadu i fod yn rhwymedi am fethiant priodas anadferadwy.

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y gyfraith ar ddirymu a'r gyfraith ar ysgaru. Fodd bynnag, mae'r prosesau cyfreithiol ar gyfer dirymu ac ysgaru yn rhannu'r un cyfnod gofynnol rhwng dyfarniadau neu orchmynion. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai'r cyfnod lleiaf hwn mewn achosion dirymu gael ei ddiwygio i adlewyrchu cyfnod lleiaf diwygiedig mewn achosion ysgaru a diddymu.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n credu y dylai'r cyfnod lleiaf ar gyfer achosion dirymu adlewyrchu'r cyfnod lleiaf diwygiedig mewn achosion ysgaru a diddymu?

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Dileu'r cyfle i herio

Mae'r Llywodraeth yn cynnig dileu'r cyfle i herio'r ysgariad ("amddiffyn") gan nad oes diben ymarferol iddo. Mae hon yn nodwedd sy'n cael ei gweld yn fwyfwy aml mewn cyfraith ysgariad mewn awdurdodaethau cyffelyb.

Yn groes i'r gred gyffredin, mae achosion ysgaru a ymleddir yn brin. Dim ond mewn 2% o'r achosion y bydd y parti arall yn herio'r ysgariad ar y dechrau, a dim ond mewn llond llaw o'r rhain y bydd y parti arall yn mynd yr holl ffordd at wrandawriad llys. Mae achos Owens v Owens yn eithriadol, ond mae'n dangos y sefyllfa anodd a geir pan fydd un priod yn teimlo ei fod wedi'i ddal gan y gyfraith mewn priodas sydd wedi dod i ben yn ei golwg hi.

Mae'r Llywodraeth o'r farn, fel rheol gyffredinol, nad oes diben – i'r partion nac i'r wladwriaeth – i gadw'r cyfle i herio'r ysgariad. Mae'r rhan fwyaf o ddeisebau ysgaru yn rhoi disgrifiad unochrog nad yw o reidwydd yn adlewyrchu'r gwir reswm am fethiant y briodas. Does dim llawer o ymatebwyr am dreulio amser na gwario arian yn herio'r manylion yn y ddeiseb, yn enwedig os ydynt yn cytuno bod y briodas wedi dod i ben. Os yw un parti wedi penderfynu bod y briodas ar ben, yna gellir dadlau bod y briodas wedi methu. Nid yw priodas er budd y teulu na'r gymuned oni bai fod y ddau barti wedi ymrwymo i'w gilydd. Mae priodas o fath arall yn briodas mewn enw yn unig, yn "gragen gyfreithiol wag", yng ngeiriau Comisiwn y Gyfraith dros hanner can mlynedd yn ôl.⁶⁵

Gan fod y broses gyfreithiol yn caniatáu i ymatebwyr herio'r ysgariad, neu ddangos eu bod yn bwriadu ei herio, mae'r Llywodraeth yn poeni y gallai hynny gynnig ffordd i bobl briod camdriniol barhau i orfodi a rheoli'r priod arall. Canfu awduron yr astudiaeth ymchwil academaidd *No Contest* fod gan y gallu i herio canlyniadau anfwriadol eraill:

⁶⁴ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 12; Deddf Partneriaeth Sifil 2004, adran 50.

⁶⁵ *The Field of Choice*, t.10.

The potential misuse of defence was not just by alleged abusers. Defence could also be used by respondents as a bargaining chip to extract concessions in other negotiations about children or money.⁶⁶

Er bod y Llywodraeth yn credu mai dim ond mewn ychydig o achosion eithriadol y bydd herio ysgariad yn effeithio ar y canlyniad, rydym yn ymwybodol bod rhai pobl a grwpiau yn gwrthwynebu ysgaru unochrog ar sail egwyddor. Rydym hefyd yn nodi bod awduron *No Contest*, yn yr astudiaeth o achosion wedi'u herio, wedi canfod bod llai na un o bob pum ymatebydd yn gwadu bod y briodas wedi chwalu a bod y lleill i gyd bron yn dadlau ynghylch y ffaith yr oedd y deisebydd yn dibynnu arni neu'r dystiolaeth roedd y deisebydd wedi'i rhoi i gefnogi'r ffaith.⁶⁷

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno ar y cynnig i gael gwared â'r gallu i herio fel rheol gyffredinol? Gallwch roi eich rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cwestiwn 9

A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol lle dylai'r ymatebydd allu herio'r ysgariad? Eglurwch yr amgylchiadau eithriadol hyn yn y blwch testun.

- Oes
- Nac oes
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cadw'r gwaharddiad ar gyflwyno deisebau ysgaru yn y flwyddyn gyntaf

Mae'r gyfraith bresennol yn gwahardd cyflwyno deisebau ysgaru ym mlwyddyn gyntaf y briodas.⁶⁸ Cafodd y gwaharddiad hwn ei gyflwyno yn Neddf Achosion Priodasol 1937 pan gafodd y seiliau dros ysgaru eu hymestyn ymhellach na godinebu. Gwaharddiad tair blynedd oedd hwn i ddechrau, ac fe gafodd ei fyrhau i un flwyddyn yn 1984, yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith.⁶⁹ Cyn 1937, doedd dim cyfyngiad amser ar gyflwyno deiseb ysgaru.

Nid yw'r Llywodraeth wedi gweld dystiolaeth sy'n dangos bod y gwaharddiad yn achosi anawsterau na bod ei ddileu'n angenrheidiol. Felly, nid ydym yn cynnig dileu hynny fel

⁶⁶ *No Contest*, p.75.

⁶⁷ *No Contest*, t.40.

⁶⁸ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 3(1).

⁶⁹ *Time Restrictions on Presentation of Divorce and Nullity Petitions*, t.12.

rhan o ddiwygio'r broses ar gyfer cael ysgariad, ond hoffem glywed eich safbwyntiau pellach.

Cwestiwn 10

A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad ar ddeisebu am ysgariad ym mlwyddyn gyntaf y briodas aros yn ei le? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.

- Ydw
- Nac ydw
- Heb benderfynu
- [Testun rhydd]

Cadw gofynion eraill

Bydd y Llywodraeth yn cadw pŵer Proctor y Frenhines (yn ymarferol, Cyfreithiwr y Trysorlys) dan gyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol i "ddangos rheswm" yn erbyn troi dyfarniad nisi yn ddyfarniad terfynol.⁷⁰ Bydd y pŵer hwn i ymyrryd, sydd wedi'i ddefnyddio, er enghraifft, lle honnwyd bod gweithred odinebus wedi'i dyfeisio i sicrhau ysgariad, yn aros yn amddiffyniad rhag ceisiadau twyllodrus.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cadw pŵer y llys i wneud rheolau i fynnu bod ymarferwyr cyfreithiol yn ardystio a ydynt wedi trafod y posibilrwydd o gymodi, ynghyd â phŵer y llys i ohirio achos os oes gobraith am gymodi.⁷¹ Credwn fod y pŵer hwn yn amddiffyniad pwysig cyn dod â'r briodas i ben yn derfynol dan y gyfraith.

Cwestiwn 11

A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud am y cynnig i gadw'r gofynion hyn neu unrhyw ofynion eraill?

- [Testun rhydd]

Asesiadau o'r Effaith

Gweler yr asesiad o'r effaith a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau sydd wedi'u cyhoeddi ar wahân.

Cwestiwn 12

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno rhagor o ddata a gwybodaeth i'n helpu i ddiweddarau ein hasesiadau cyntaf o'r effeithiau a'n hasesiad o effaith ar gydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad.

- [Testun rhydd]

⁷⁰ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 8.

⁷¹ Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 6.

Holiadur

Byddem yn falch o gael ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gadw methiant y tu hwnt i adfer yn unig sail dros ysgaru? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.
2. Mewn egwyddor, a ydych yn cytuno â'r cynnig i sefydlu proses hysbysu yn lle'r pum ffaith? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.
3. Ydych chi'n credu y dylid gwneud darpariaeth i'r ddau barti yn y briodas allu rhoi hysbysiad ar y cyd yn ogystal â gwneud darpariaeth i un parti yn unig allu rhoi hysbysiad? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.
4. Rydym wedi nodi'r rhesymau y mae'r Llywodraeth yn credu ei bod hi'n ddefnyddiol i gael y broses dyfarniad ddau gam (y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt). A ydych yn cytuno?
5. Pa gyfnod *lleiaf* a fyddai'n fwyaf priodol yn eich barn chi i leihau gwrthdaro teuluol, a sut y dylid mesur hynny? Rhowch eich rhesymau yn y blwch testun.
6. A oes unrhyw amgylchiadau lle dylid lleihau neu hyd yn oed ymestyn y cyfnod lleiaf? Os felly, rhowch esboniad yn y blwch testun.
7. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfnod lleiaf ar gyfer achosion dirymu adlewyrchu'r cyfnod lleiaf diwygiedig mewn achosion ysgaru a diddymu?
8. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared â'r gallu i herio fel rheol gyffredinol? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.
9. A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol lle dylai'r ymatebydd allu herio'r ysgariad? Eglurwch yr amgylchiadau eithriadol hyn yn y blwch testun.
10. A ydych yn cytuno y dylai'r gwaharddiad ar ddeisebu am ysgariad ym mlwyddyn gyntaf y briodas aros yn ei le? Efallai y byddwch am roi'ch rhesymau yn y blwch testun.
11. A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud am y cynnig i gadw'r gofynion hyn neu unrhyw ofynion eraill?
12. Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno rhagor o ddata a gwybodaeth i'n helpu i ddiweddarau ein hasesiadau cyntaf o'r effeithiau a'n hasesiad o effaith ar gydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha gymhwyster rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os ydych yn dymuno i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 10 Rhagfyr 2018 i:

Reducing Family Conflict, Zone 3.23

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

E-bost: Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Mae copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gwneud cais am gopiâu o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill trwy e-bostio Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 8 Mawrth 2019. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin y wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi pob ystyriaeth i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Asesiad o'r Effaith

Mae'r asesiad o'r effaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-the-legal-requirements-for-divorce>

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

